Mae rhai cyfleoedd sylweddol yn dod i'r amlwg i'r Ymddiriedolaeth barhau i wneud y cyfraniad hwnnw ar draws y system drwy greu mwy o gyfleoedd ar gyfer deialog strategol a chydweithio â phartneriaid a thrwy gymryd rhan mewn mentrau Llywodraeth Cymru fel y rhaglen Gymunedol o'r Cychwyn, sy'n rhoi cyfle i'r Ymddiriedolaeth gyfrannu at ddatrysiadau ehangach, sy'n seiliedig ar y system, i wella canlyniad a phrofiad cleifion.

GIG 111 Cymru Ar-lein a Theleffoni

I lawer o gleifion, eu pwynt cyswllt cyntaf gyda gofal brys neu ofal mewn argyfwng yw'r gwasanaeth 111, gyda 5.3 miliwn o ymweliadau â'r wefan a mwy nag un filiwn o alwadau ffôn yn ystod y 12 mis diwethaf.

Cynnig Digidol GIG 111 Cymru

Er ei bod yn cydnabod bod angen llawer o waith a buddsoddiad i ddod â'r wefan i safon "orau yn ei dosbarth", mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i wneud gwelliannau cynyddrannol i gynnig digidol GIG 111 Cymru, gan ddibynnu ar benderfyniad ar lefelau buddsoddiad yn y dyfodol. Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru a chomisiynwyr ynghylch y mecanweithiau i ddatblygu'r pen blaen digidol yn wasanaeth cynaliadwy sy'n cyd-fynd â'r uchelgeisiau digidol a nodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ac sydd â'r potensial i greu mwy o werth yn y system gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae arian achlysurol a ddarperir bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei groesawu.

Gyda risg gorfforaethol wedi'i nodi mewn perthynas â chynnal a chadw digonol y gwirwyr symptomau digidol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio ei chyfalaf dewisol i gychwyn rhaglen waith i nodi a gweithredu offeryn Gwirio Symptomau Ar-lein cydymffurfiol ac effeithiol. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r gwirwyr symptomau newydd wedi'u diweddarau i fod i fynd yn fyw ym mis Mehefin 2026. Bydd hyn yn cael ei integreiddio â'r system feddalwedd datrysiadau Gymreig dan arweiniad clinigol a ddefnyddir ar gyfer galwyr 111 (CPSS) a fydd yn caniatáu blaenoriaethu a ffrydio cleifion i ganlyniadau priodol, gan leihau o bosibl nifer y rhyngweithiadau digidol lle mae cleifion yn cael eu cyfeirio i ffonio 111.

Ar y cyd â Robotics AI, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu bot sgwrsio, sef cynorthwydd rhithwir ar wefan GIG 111 Cymru, sy'n darparu ymatebion uniongyrchol i ymholiadau defnyddwyr ac yn symleiddio mynediad at wybodaeth. Ar gael mewn sawl iaith, gan gynnwys y Gymraeg, mae'r cynorthwydd rhithwir "AIBot" yn cynnig profiad mwy rhyngweithiol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Ers ei lansio, mae AIBot wedi cefnogi miloedd o ryngweithiadau defnyddwyr (bron i 30,000 yn y pum mis hyd at fis Rhagfyr), gan ddangos bod y defnyddwyr wedi manteisio ar y gwasanaeth ac wedi ymgysylltu'n dda, gyda monitro perfformiad parhaus ac adborth gan ddefnyddwyr yn cael ei ddefnyddio i fireinio cynnwys, llifau sgwrsio a llwybrau uwchgyfeirio'n barhaus. Mae'r datrysiad hefyd wedi derbyn cydnabyddiaeth allanol, ar ôl cyrraedd rhestr fer yn ddiweddar ar gyfer gwobr rhagoriaeth genedlaethol mewn gofal iechyd digidol, gan adlewyrchu ei effaith a'i berthnasedd ehangach ar draws gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Mae gwaith ar y gweill i ddeall potensial pellach deallusrwydd artifisial asiantaidd o fewn cyfyngiadau gwefan bresennol GIG 111 Cymru. Yn ogystal, mae cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i barhau a'i gwaith o integreiddio WhatsApp, efelychu swyddogaethau gwe GIG 111 Cymru trwy ryngweithiadau asiant sgwrsio rhithwir, ehangu'r cwmpas iaith, ac archwilio ailgynllunio a gwella llwybrau ail-archebu presgripsiynau.

Ochr yn ochr â'r ddarpariaeth hon, mae adborth cleifion yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi'n weithredol, gyda mwy na 1,000 o ddarnau unigol o adborth wedi'u derbyn hyd yn hyn. Mae'r adborth hwn wedi bod yn gymysg, gyda chyfran sylweddol yn tynnu sylw at brofiad


cadarnhaol y defnyddiwr, cyflymder mynediad ac eglurder gwybodaeth, ochr yn ochr ag adborth adeiladol yn ceisio ymarferoldeb ychwanegol, dyfnder clinigol gwell ac uwchgyfeirio llyfnach. Mae llawer o'r gwelliannau gofynnol hyn yn dibynnu ar integreiddio â gwiriwr symptomau modern a fyddai'n datgloi rhyngweithiadau mwy personol a chyfoethog yn glinigol, a bydd hyn yn cael ei alluogi unwaith y bydd y gwirwyr symptomau ar waith o fis Mehefin 2026.

Gwasanaethau Teleffoni 111

Mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu drwy amseroedd ateb galwadau, gadael galwadau ac amseroedd ffonio'n ôl clinigol.

Yn hanesyddol, y targed enwol fu cadw cyfraddau gadael yn is na 5%. Fel y gwelir yn y siart isod, anaml y mae hyn wedi cael ei gyflawni. Mae adolygiad llawn o'r galw a'r capasiti a gynhaliwyd gan yr ymgynghorwyr arbenigol Operational Research in Health (ORH) y llynedd wedi cadarnhau nad oes gan yr Ymddiriedolaeth ddigon o drinwyr galwadau i gyflawni'r lefel hon o berfformiad. Mae'r niferoedd a gomisiynwyd cyfredol (190 cyfwerth ag amser llawn) yn caniatáu perfformiad rhwng 10 - 15%, neu fel arall, byddai angen 22 o drinwyr galwadau c.a.ll ychwanegol. Fodd bynnag, byddai hyn yn dal yn annigonol i ymdopi â'r oriau brig o awr i awr, yn ddyddiol ac yn wythnosol a brofir yn y gwasanaeth hwn, yn enwedig yn ystod gwyliau banc. Heb unrhyw fuddsoddiad yn 2026/27, mae'n annhebygol y bydd hyn yn cael ei ddatrys heblaw archwilio ffyrdd pellach o reoli'r galw mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys defnyddio pen blaen digidol.


% y galwadau 111 a adawyd ar ôl 60 eiliad



Mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych yn weithredol ar yr hyn y gellir ei wneud o ran prosesau a chynhyrchiant o fewn y cwmpas costau comisiynu presennol i wella perfformiad ac ar hyn o bryd mae'n cynnal ymarfer ail-drefnu rhestrau dyletswyddau llawn o fewn y gwasanaeth 111, a fydd yn gweld patrymau sifft sy'n cyd fynd yn well â'r galw disgwylidig ac yn darparu profiad gwaith gwell i'n pobl, gan leihau lefelau absenoldeb. Bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn dechrau 2026/27. Mae trafodaethau'n parhau gyda chomisiynwyr ynghylch mesur perfformiad priodol yn y dyfodol.

Bydd llwybrau eraill ar gyfer gwella hefyd yn parhau i gael eu harchwilio, gan gynnwys sut y gallai datblygu'r systemau blaen digidol leihau'r galw am deffoni.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu galwad glinigol yn ôl o fewn awr yn gyson i fwy na 90% o'r cleifion â'r flaenoriaeth uchaf. Fodd bynnag, mae perfformiad ar gyfer galwadau blaenoriaeth is wedi dirywio yn ystod y misoedd diwethaf, gyda rhai cleifion yn aros oriau lawer am alwad yn ôl fel y nodir yn y graff isod. Mae gwaith ar y gweill i ddeall yn well y ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad. Mae nifer y galwadau â'r flaenoriaeth uchaf wedi cynyddu ac mae newidiadau mewn proses a chynhyrchiant yn cael eu hystyried i wella'r profiad a'r canlyniad i gleifion ag anghenion aciwtedd is. Mae clinigwyr yn cynnal mwy o adolygiadau clinigol nag erioed ac mae cynhyrchiant da o'r safbwynt hwnnw. Mae hyn hefyd yn pwysleisio'r angen i archwilio ac optimeiddio datrysiadau digidol, a allai ddarparu dewis arall effeithiol a diogel yn glinigol i alwyr aciwtedd isel.




Yn unol â model gwasanaethau clinigol esblygol yr Ymddiriedolaeth, o ddechrau gwanwyn 2026, bydd yr holl glinigwyr o bell, gan gynnwys y rhai sy'n delio â galwadau 111 a'r rhai sy'n delio â galwadau 999, yn ffurfio Gwasanaeth Gofal Integredig o Bell, neu RICS, newydd. Bydd clinigwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth hwn yn gweithio o un system a fydd yn eu galluogi i gefnogi cleifion yn seiliedig ar eu cyflwyniad clinigol a'u hanghenion. Bydd hyn yn sicrhau bod y cleifion mwyaf sâl yn cael eu hystyried yn gyson ar draws y ddau fath o alwad ac, yn bwysicach fyth, bydd yn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth mewn gwell sefyllfa i gefnogi cleifion â chyflyrau aciwtedd is gan gyflwyno mynediad priodol i ofal cymunedol a gofal amgen.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi datblygu gallu a chapasiti i sicrhau bod cynnydd yng nghwmpas yr ymarfer a gymhwysir gan glinigwyr o bell i gefnogi cleifion yn well ac, o ganlyniad i hyn, cefnogi system ehangach GIG Cymru i reoli'r galw yn fwy effeithiol. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu galwadau fideo ac Ymatebwyr Lles Cymunedol a nodwyd yn flaenorol i gefnogi ymgynghori clinigol a diagnosis.

Er bod amseroldeb yn ffactor allweddol mewn perthynas â phrofiad ac ansawdd cleifion, efallai mai'r peth pwysicach yw'r graddau y mae'r gwasanaeth 111 yn gallu darparu porth yn effeithiol ac yn effeithlon i'r gofal cywir i bob galwr unigol.

Fel y mae'r ddelwedd isod yn ei ddangos, mae llawer o alwyr yn cael eu cyfeirio at wasanaethau gofal sylfaenol brys (Y Tu Allan i Oriau) neu at eu hymarferwyr gofal sylfaenol eu hunain. Mae hyn i'w ddisgwyl, gan fod y gwasanaeth wedi'i gyflwyno'n benodol fel llwybr i wasanaethau y tu allan i oriau. Ar hyn o bryd mae tua 15% yn cael eu cyfeirio i fynychu Adran Argyfwng ac, er bod y gyfran hon yn cyfateb yn dda i wasanaethau 111 eraill y DU, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda byrddau iechyd i ddod o hyd i ffyrdd o leihau hyn ymhellach a dod o hyd i lwybrau mwy priodol i gadw cleifion gartref neu'n nes at adref. Mae hyn yn cysylltu'n ôl â'r uchelgais i gynyddu cwrpas ymarfer clinigwyr o bell a'u defnydd o offer digidol i gadarnhau cynlluniau hunanofal cleifion a allai drefnu mynediad dilynol wedi'i gynllunio i wasanaethau gofal sylfaenol neu ei gwneud yn ofynnol i unigolion hunangyfeirio at wasanaethau cymunedol, fel fferylfa gymunedol.

Llwybrau terfynol galwyr 111 - 2025



Mae tri bwrdd iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a BIP Caerdydd a'r Fro) yn gweithredu protocol 111 yn Gyntaf, lle mae categorïau cytunedig o gleifion a fyddai fel arall yn cael eu cyfeirio at yr adran argyfwng yn cael eu trosglwyddo i'w timau asesu clinigol o bell i'w hadolygu ymhellach - ym mis Rhagfyr cyfeiriwyd 3,370 o gleifion at y timau o bell hyn o'r byrddau iechyd. Mae samplu ar hap wedi dangos bod mwy na thri chwarter o'r cleifion hyn yn cael eu rheoli'n llwyddiannus i ffwrdd o'r Adran Argyfwng yn y tri bwrdd iechyd lle mae hyn yn weithredol.

Ym mis Ionawr 2026, ehangodd yr Ymddiriedolaeth y meini prawf ar gyfer 111 yn Gyntaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dilyn treialon llwyddiannus. Dangosodd y treialon hynny y gallai nifer y cleifion a anfonir i adrannau argyfwng leihau 40-50%. Mae'r dull hwn yn cael ei drafod gyda Byrddau Iechyd Aneurin Bevan a Bae Abertawe.

Edrych ymlaen

Fel darparwr GIG 111 Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y cyfleoedd sydd gan y gwasanaeth i wella canlyniadau a phrofiad cleifion, yn ogystal â llyfnhau llif cleifion o amgylch y system, fel bod y rhai sydd angen gofal yn ei dderbyn ar yr amser cywir ac yn y lle cywir. Bydd Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys nifer o flaenoriaethau gan gynnwys y rhai a nodir isod:


- Lle mae adnoddau'n caniatáu, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi cynnydd ar sefydlu pen blaen digidol 111 Cymru fel porth cenedlaethol, modern ar gyfer cael mynediad at gyngor a gofal, gan helpu i alluogi mecanweithiau mwy effeithiol ar gyfer cyfeirio cleifion at y gofal cywir, ar yr amser cywir. Gan weithio ar y cyd â phartneriaid ar draws GIG Cymru, gan gynnwys Iechyd Digidol a Gofal Cymru, bydd yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi mynegiant gweledigaeth genedlaethol a rennir ar gyfer dyfodol mynediad digidol at ofal brys a gofal sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o alinio pen blaen digidol 111 Cymru â'r gwasanaeth 111 ehangach, ac, yn amodol ar flaenoriaethu cenedlaethol, cydlynu gwefan 111 Cymru â drysau blaen digidol eraill fel Ap GIG Cymru. Mae'r pwyntiau mynediad cyhoeddus hyn i'r system yn cynnig cyfleoedd yn y dyfodol i ddata a gynhyrchir gan gleifion (e.e. o ddyfeisiau gwisgadwy, apiau iechyd, neu holiaduron) gael ei ddefnyddio hefyd o fewn y llwybr gofal ar gyfer profiadau a chynghor mwy personol, ymyrraeth gynharach, ac atal gofal sylfaenol ac eilaidd.
- Fel darparwr cenedlaethol, mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfeiriadur gwasanaethau cadarn eisoes sydd ar gael yn fewnol i'n pobl ac yn uniongyrchol i'r cyhoedd trwy wefan 111 Cymru i gynnig gwybodaeth a chyfeirio i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi un cyfeiriadur gwasanaethau cenedlaethol y gellir ei ddefnyddio gan bob gwasanaeth ledled Cymru a'i fewnosod mewn llwyfannau fel pen blaen digidol 111 Cymru ac Ap GIG Cymru er mwyn darparu un ffynhonnell wirionedd i bobl Cymru mewn modd effeithlon a chredadwy. Felly, mae'r Ymddiriedolaeth eisoes yn ymwneud â chwmpasu, diffinio a dylunio cyfeiriadur gwasanaethau cenedlaethol yn y dyfodol.
- Parhau i wella profiad a chanlyniadau cleifion drwy leihau amseroedd aros i'r rhai sy'n ffonio, cynyddu mynediad at lwybrau amgen fel 111 yn Gyntaf, a lleihau nifer y trosglwyddiadau gan gynnwys cyfleoedd archebu uniongyrchol a chydweithio gwell â'r hybiau cymorth clinigol.
- Yn yr un modd â'r gwasanaeth meddygol brys (EMS) 999, mae cysylltu data cleifion fel y gall yr Ymddiriedolaeth a'i phartneriaid system ddeall canlyniadau cyffredinol cleifion, defnydd o wasanaethau ac effaith y system yn well yn hanfodol, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ddod o hyd i ffordd ymlaen ar hyn mewn cydweithrediad â phartneriaid.
- Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n llawn â'r rhaglen Gymunedol o'r Cychwyn i archwilio cyfleoedd i 111 chwarae rhan llawer mwy integredig o fewn gofal brys.

Gwasanaethau Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS)


Mae tîm Gofal Ambiwylans yr Ymddiriedolaeth yn darparu tair prif faes gwasanaeth: cludiant i, ac yn ôl o, apwyntiadau oncoleg, arenol ac apwyntiadau cleifion allanol arferol; rhyddhau a throsglwyddo o ysbytai; a chludo rhai galwadau 999 i'r ysbyty lle mae'r set sgiliau clinigol yn caniatáu.

Mae'r gwasanaethau'n cefnogi nifer sylweddol o bobl ledled Cymru, gyda'r graff isod yn dangos bod tua 46,000 o gleifion yn cael eu cludo i'w hapwyntiadau bob mis. Darperir y gwasanaeth gan amrywiaeth o staff WAST, gyrywyr ceir gwirfoddol WAST, darparwyr preifat dan contract a gwasanaethau tacsî. Mae'r darparwyr preifat wedi'u comisiynu'n llawn gan


WAST, gyda Fframwaith Rheoli Ansawdd cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel.



Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae patrymau galw wedi newid, sydd wedi golygu nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi gallu gwasanaethu'r holl alw cymwys. Y canlyniad yw bod nifer o gleifion sy'n cael eu cludiant wedi'i ganslo, weithiau ar fyr rybudd iawn. Mae hyn yn amlwg yn darparu profiad gwael i gleifion ac mae ganddo hefyd y potensial i effeithio ar ganlyniadau iechyd cleifion os na all cleifion gael mynediad at y gofal eilaidd sydd ei angen arnynt. Heb ddata cysylltiedig, nid yw'r Ymddiriedolaeth bob amser yn gallu canfod y canlyniadau, ond mae'n monitro unrhyw gansladau ar gyfer cleifion arennol – gydag apwyntiadau arennol yn cael blaenoriaeth, mae'r rhain yn parhau i fod yn fach iawn o ran nifer. Rydym hefyd yn gwybod bod cwynion am ein gwasanaethau NEPTS wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu fwy, rhywbeth sy'n destun pryder ac sy'n cael ei fonitro am themâu a thueddiadau.




Arennol wedi'i fetu a' Lleihau




Dau o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar y galw yw cynnydd yn nifer y milltiroedd fesul taith, a ddaeth yn sgil canoli rhai gwasanaethau ledled Cymru; a chynnydd yn lefel difrifoldeb y galw, gyda llai o gleifion cymwys sy'n gallu teithio'n llawn a mwy o gleifion ar stretsier. Fel y gwelir yn y graff isod, mae amseroedd teithio cyfartalog wedi cynyddu o tua 60 munud yn 2021 i dros 80 munud yn 2025, cynnydd o 25%. Gyda mwy na 46,000 o deithiau y mis, mae hwn yn lefel sylweddol o gapasiti ychwanegol sydd ei angen.

Ers y pandemig mae llai o gleifion yn cael eu cludo fesul cerbyd y dydd. Swyddogaeth o leihau risgiau haint oedd hyn yn wreiddiol ond mae bellach yn rhywbeth sydd angen ei adolygu i gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Fodd bynnag, rhaid rheoli hyn o ran risg a phryderon pellach ynghylch hyd y teithiau, gan fod rhai cleifion yn treulio oriau lawer yn cael eu cludo wrth i'r llwybrau ddod yn fwy cylchdroadol. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i'w holl wasanaethau fod mor gynhyrchiol â phosibl, yn enwedig lle mae aneffeithlonrwydd hysbys a bydd yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain.

Amser teithio dyddiol cyfartalog Ebrill 2021 – Rhagfyr 2025




Teithiau Arenol a Gwblhawyd - Symudedd Ambiwlans yn Unig



Mae yna ffactorau hefyd sy'n effeithio ar gapasiti, a'r pwysicaf ohonynt yw nifer y teithiau sydd wedi'u cynllunio ac nad oes eu hangen wedyn. Yn aml, mae hyn o ganlyniad i ganslo apwyntiadau ysbty a pheidio â hysbysu'r gwasanaeth NEPTS ymlaen llaw. Mae lefel y cansladau ar y diwrnod ar hyn o bryd yn 15% o'r holl deithiau a gynlluniwyd, a phe bai'n cael ei leihau, byddai hynny'n darparu capasiti ychwanegol i ymdopi â galw heb ei ddiwallu.

Nifer y Cansladau ar y Diwrnod



Er gwaethaf y problemau hyn, mae perfformiad yn erbyn dangosyddion amseroldeb gwasanaeth bellach yn gyson uwch nag ar unrhyw adeg ers creu gwasanaeth NEPTS. Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad yn erbyn y safonau allweddol ar gyfer 2025 a 2019, mae'r uchafbwynt gwyrdd yn dynodi mesurau sydd uwchlaw'r safonau gwasanaeth disgwyledig.

Tabl 1: Perfformiad yn erbyn dangosyddion prydlondeb gwasanaeth 2019 a 2025

Mesur Allweddol	2019	2025	Gwahaniaeth
Cleifion Allanol i Mewn 1	59.4%	72.9%	13.5%
Oncoleg i Mewn 1	62.4%	78.1%	15.7%
Arennol i Mewn 1	58.6%	73.9%	15.3%
Cleifion Allanol Allan	77.8%	76.4%	-1.4%
Oncoleg Allan	77.1%	79.6%	2.5%

Arennol Allan 1	69.1%	75.1%	6.0%
D&T Uwch	67.5%	80.3%	12.8%
D&T yr un Diwrnod	97.4%	95.3%	-2.1%

Mae angen gweithredu i wella'r gwasanaeth y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i gomisiynu i'w ddarparu o ran ei gallu i ddiwallu'r galw ac i leihau'r lefel annerbyniol o gansladau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos iawn gyda chomisiynwyr a byrddau iechyd trwy Grŵp Sicrwydd Cyflawni y Cyd-bwyllgor Comisiynu i gyflawni'r perfformiad gorau posibl i'r claf. Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u cymryd neu sy'n cael eu cymryd yn cynnwys y canlynol:

- Ail-drefnu rhestrau dyletswyddau holl adnoddau'r Ymddiriedolaeth, er mwyn paru sifftiau'n well â'r galw. Mae ail-drefnu rhestrau dyletswydd yn gymhleth ac yn sensitif ac felly mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio partner allanol i weithio drwy'r manylion, gan gynnwys defnyddio nifer o weithgorau staff i ddod i gytundeb terfynol. Nododd modelu y gallai'r Ymddiriedolaeth wneud cynnydd effeithlonrwydd o +354 o deithiau cleifion yr wythnos neu 18,458 y flwyddyn tra hefyd yn cynhyrchu patrymau sifftiau ymarferol i'n pobl. Mae'n debygol y bydd y rhestrau dyletswyddau newydd yn cael eu gweithredu yn Ch1 2026/27.
- Eleni gwelwyd cyflwyno negeseuon SMS, sy'n caniatáu i'r Ymddiriedolaeth gysylltu â chleifion os yw eu cludiant yn mynd i gael ei ganslo, gan ddarparu profiad gwell i gleifion. Mae gwaith yn parhau i wneud hwn yn wasanaeth negeseuon dwyffordd, gan ganiatáu i gleifion ganslo eu cludiant yn hawdd.
- Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mae gwaith wedi'i wneud i alinio a chysylltu system cleifion allanol y bwrdd iechyd â system yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn wedi caniatáu i'r Ymddiriedolaeth nodi apwyntiadau ysbyty sydd wedi'u canslo ac felly ganslo trefniadau cludiant mewn pryd i ailddyrrannu adnoddau. Yn ystod y 5 mis cyntaf o weithredu, mae cyfanswm o 413 o deithiau wedi gallu cael eu canslo mewn pryd i ddefnyddio adnoddau mewn mannau eraill. Bydd gwaith yn parhau i gyflwyno hyn, os yn bosibl, i bob bwrdd iechyd.
- Mae modelu wedi'i wneud ar nifer o opsiynau i leihau'r nifer o gansladau, a fydd yn cael eu trafod yn fanylach gyda chomisiynwyr. Mae cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd yn cynnwys lleihau cymhwysedd i gleifion sy'n gallu cerdded, gan ganiatáu mwy o gapasiti i gleifion y mae'n rhaid eu cludo mewn ambiwlans; llacio meini prawf perfformiad; lleihau amser segur cerbydau NEPTS aros a dychwelyd; blaenoriaethu cleifion a gludir gan WAST mewn clinigau; a lleihau teithiau sy'n cael eu canslo ar y diwrnod.
- Byddai'n amserol adolygu meini prawf cymhwysedd NEPTS, ond cydnabyddir mai mater i Lywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr yw hwn. Yn ogystal, byddai budd mewn nodi effaith cynlluniau'r bwrdd iechyd i gynyddu'r defnydd o apwyntiadau digidol a rhithwir. Yn y cyfamser, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio ar gynyddu cynhyrchiant a lleihau aneffeithlonrwydd.

Ansawdd a Diogelwch Gwasanaethau ac Adborth Cleifion

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd wedi bod yn gonglfaen i'r gwaith trawsnewid y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Drwy gymhwyso'r Ddyletswydd hon, mae'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu dull ystyriol o ran sut y gallai chwarae rhan fwy fel partner system i leihau lefel y niwed y mae cleifion yn ei brofi. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio dulliau ansawdd a gwelliant parhaus i brofi a gweithredu gwelliant gwasanaeth ar lefel leol a chenedlaethol, mae wedi mabwysiadu dull cadarn o sicrhau asesiadau effaith ansawdd sy'n cynnwys creu Grŵp Ymgynghorol Clinigol i adolygu ac argymhell mabwysiadu, ac mae wedi mabwysiadu dull rheoli ansawdd cadarn o sicrhau sicrwydd sefydliadol ar ansawdd gwasanaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn anelu'n gyson at gynnig gwasanaeth gofal brys a gofal mewn argyfwng o ansawdd uchel. Fodd bynnag, cydnabyddir bod achlysuron pan nad yw'r safonau gofal hynny'n cael eu bodloni ar gyfer gormod o gleifion. Mae'r adrannau blaenorol wedi nodi rhai o'r rhesymau pam fod hyn wedi digwydd, yn ogystal â'r risg ar lefel gorfforaethol y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei rheoli, a'r nifer o gamau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn eu cymryd, gyda phartneriaid system, i wella gofal a chanlyniadau.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ceisio'n gyson fod yn dryloyw wrth gefnogi teuluoedd nad ydynt wedi profi'r safon gofal y mae'n anelu at ei darparu. Cyflawnir hyn yn bennaf drwy gymhwyso'r Ddyletswydd Gonestrwydd a gwaith ymroddedig tîm Gweithio i Wella'r Ymddiriedolaeth a chydweithwyr clinigol o bob cwr o'r Ymddiriedolaeth sy'n cefnogi achosion unigol yn weithredol.

Mae'r profiadau a gasglwyd drwy broffil cwynion y Crwner, yr Archwiliwr Meddygol a'r Ymddiriedolaeth yn dangos y realiti dynol y tu ôl i fethiant system: poen, dioddefaint, gwarth a thrawma hirfaith i gleifion a theuluoedd wrth iddynt aros am ofal nad yw'n cyrraedd mewn pryd. Rhennir hyn gyda Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Phwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch (QUEST) drwy adroddiadau mewnwelediadau a thrwy rannu profiadau byw gan gleifion, aelodau o'r teulu a staff yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod y doll ddynol o fethiant bob amser yn flaenoriaeth ymwybodol.

Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn hunanfodlon ac mae'n cydnabod bod llawer i'w wneud i leihau niwed a lleihau amrywiad er mwyn gwella'r profiad a'r canlyniad i gleifion. Fel y nodwyd uchod, mae'r bwrdd a Phwyllgor QUEST wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar gamau a gymerwyd i liniaru niwed, ac mae adroddiadau perfformiad yn rheolaidd yn cynhyrchu trafodaeth, craffu a her ynghylch beth arall y gellir ei wneud yn y maes hwn. Er bod rhai camau gweithredu y tu allan i rodd yr Ymddiriedolaeth, mae llawer yn parhau o fewn iddi, ac mae ymrwymiad sylweddol i barhau i wella ein gwasanaethau ein hunain, wrth weithio'n agos gyda byrddau iechyd, y Cyd-bwyllgor Comisiynu a Llywodraeth Cymru i gyflawni gwelliannau ar draws y system.

Digwyddiadau a Chwynion Adroddadwy Cenedlaethol

Ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr 2025, adroddodd yr Ymddiriedolaeth am 61 o Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol ac ym mis Rhagfyr 2025, roedd 23 yn hwyr i'w cau. Pan nodir Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol neu ddigwyddiad difrifol y gellir ei

briodoli i barti arall, caiff ei gyfeirio at y parti perthnasol o dan Fframwaith Cyd-ymchwilio Cymru Gyfan ac, ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr 2025, adroddwyd am 185. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhain oherwydd diffyg adnoddau o ganlyniad i oedi wrth drosglwyddo gofal.

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2025 derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 1,445 o gwynion. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud naill ai â NEPTS a meini prawf cymhwysedd cludiant cleifion neu oedi wrth ymateb i alwadau 999 a GIG 111 Cymru.


Ym mis Mawrth 2025 derbyniodd yr Ymddiriedolaeth ddau Adroddiad Buddiant Cyhoeddus gan Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, ac mae eu hargymhellion wedi cael eu derbyn.

Cydnabyddir ei bod yn annerbyniol nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd y lefel perfformiad ofynnol ar gyfer pryderon ers dros 18 mis. Nododd cynllun adfer yr Ymddiriedolaeth dri maes allweddol sy'n effeithio ar berfformiad ac amseroedd ymateb; niferoedd uchel o gwynion yn deillio o oedi wrth fynychu a chymhwyso meini prawf cymhwysedd cleifion ar gyfer cludo cleifion, cymhlethdod ymchwiliadau wedi cynyddu o ganlyniad i newidiadau i'r model gwasanaeth 999 ac argaeledd ymchwilwyr. Pryder pellach yw cynnydd mewn absenoldeb salwch o fewn y Tîm Gweithio i Wella, sydd wedi golygu bod angen mwy o gefnogaeth gan y tîm Gwasanaethau Pobl a Diwylliant i sicrhau lles a chefnogaeth i gydweithwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r unigolion a'r teuluoedd/gofalwyr sy'n profi'r oedi hyn.

Mae camau allweddol sy'n cael eu cymryd i wella perfformiad wedi cynnwys y canlynol:

- dyraniad ariannol cynyddol i dimau gweithredol a rhyddhau uwch glinigwyr o weithredu Trawsnewid Model Clinigol a Fframwaith Perfformiad Ambiwlans i gynyddu capasiti ymchwilio
- gweithio gyda gwasanaethau cludo cleifion i wella sgriptiau canolfannau galwadau a lleihau nifer y cwynion ffurfiol
- adrodd rheolaidd drwy fwrdd adfer Gweithio i Wella i gadarnhau bod gwelliannau'n cael eu gwireddu, a adroddir hynny wedyn i'r Tîm Arwain Gweithredol.

Yn hollbwysig i'r gwasanaeth 999, mae nifer a chymhlethdod y cwynion a'r digwyddiadau yn cael eu gyrru i raddau helaeth gan oedi wrth ymateb i gleifion, naill ai o bell neu wyneb yn wyneb, oherwydd nifer y galwadau sy'n cael eu derbyn neu argaeledd criwiau ambiwlans pan fyddant yn profi oedi wrth drosglwyddo gofal i gydweithwyr yn yr ysbyty.



Adrodd ar Brofiad Cleifion a Gwella Ansawdd

Mae deall profiad cleifion a defnyddio'r wybodaeth honno i lywio gwasanaethau o'r pwys mwyaf, yn enwedig ar yr adeg hon o newid sylweddol yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae profiad cleifion wedi'i gynnwys o fewn cwrpas gwerthusiad academaidd a gomisiynwyd yn ddiweddar o'r model clinigol a'r fframwaith rheoli perfformiad wedi'i adnewyddu, tra bod tîm Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned (PECI) y sefydliad yn parhau i sicrhau mewnwelediad cleifion trwy amrywiaeth o lwybrau.

Maes ffocws allweddol diweddar i'r timau PECI a Llywodraethu Gwybodaeth eleni fu sicrhau cymeradwyaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i fabwysiadu SMS (negeseuon testun) fel llwybr i gael adborth gan gleifion ar raddfa sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r sefydliad bellach wedi cymeradwyo asesiad o'r effaith ar breifatrwydd data ar gyfer defnyddio negeseuon testun mewn gwasanaethau 999 ac mae yng nghyfnodau olaf cwblhau un ar gyfer 111. Mae gwaith ar y gweill i weithredu profiad cleifion SMS 999, a rhagwelir y bydd hyn yn cynnig gwelliant sylweddol yn lefel y mewnwelediad a geir a'r cyfle i adolygu hyn ochr yn ochr â dadansoddeg iechyd y boblogaeth i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau a deall yn well sut y gall WAST chwarae ei ran wrth dargedu ein dull o leihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae gwaith sylweddol hefyd wedi'i wneud i sicrhau gwelliannau ym mhrofiad pobl sy'n defnyddio NEPTS. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae manyleb cerbydau cludo cleifion sydd newydd eu comisiynu wedi newid, a mesurau wedi'u cyflwyno i'r fflyd bresennol sy'n gwella profiad pobl sy'n byw gyda dementia. Mae gwaith hefyd wedi'i gwblhau i gefnogi'r tîm NEPTS sy'n gweithio gyda chleifion sy'n gofyn am gludiant nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, ac mae hyn wedi lleihau nifer y cwynion a dderbynnir, er eu bod yn parhau i fod yn uchel – mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith ar leihau cwynion.

Haint sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd

Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ail-gyflunio a recriwtio i'r tîm Atal a Rheoli Heintiau i sicrhau cyngor arbenigol priodol, gan gynnwys cyflogi fferylllydd i arwain ar stiwardiaeth gwrthficrobaidd. Yn dilyn cwblhau asesiad sylfaenol o'n dull gweithredu a

datblygu cynllun gwella lleol, mae'r tîm wrthi'n ailasesu sefyllfa'r Ymddiriedolaeth yn erbyn Datganiad Ansawdd Atal a Rheoli Heintiau Llywodraeth Cymru, a byddant hefyd yn gwneud hyn yn unol â'r Cod Ymarfer sydd ar ddod ar gyfer heintiau a ddaliwyd wrth gael gofal iechyd

Un maes allweddol o ddatblygiad dros y flwyddyn ddiwethaf fu cyflwyno anadlyddion puro aer pwerus i bob ambiwlans argyfwng a char ymateb er mwyn sicrhau safonau uchel o amddiffyniad anadlol i staff a chleifion rhag ofn y bydd angen mynychu claf â chlefyd hynod heintus neu'r angen i gael amddiffyniad cyffredinol ar waith i ymateb i achosion o glefyd heintus cymunedol. Mae'r tîm hefyd yn gweithio ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid y GIG i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cyfrannu'n effeithiol at y Rhaglen Ddysgu Gydweithredol Clostridium Difficile gyda ffocws penodol ar benderfyniadau i drosglwyddo a'r camau trosglwyddo cysylltiedig.

Diogelu

Mae diogelu yn rhan annatod o atebolrwydd cyhoeddus a diwylliant sefydliadol yr Ymddiriedolaeth. Drwy drefniadau llywodraethu sefydledig, adrodd tryloyw a dysgu gweithredol, mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau ei hun bod cyfrifoldebau diogelu ar gyfer cleifion a'r gweithlu yn cael eu cyflawni yn unol â gofynion cenedlaethol ac wedi'u hymgorffori yn ein dull o wella'n barhaus. Mae'r tîm Diogelu yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau ymgysylltiad gweithredol â Byrddau Diogelu Lleol a chymryd rhan uniongyrchol mewn adolygiadau achosion difrifol lle mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn barti gweithredol. Mae nifer yr Atgyfeiriadau Diogelu gan staff yr Ymddiriedolaeth wedi cynyddu ar draws Oedolion, Plant a Phobl Ifanc sy'n Agored i Niwed dros y flwyddyn ddiwethaf. I Oedolion Agored i Niwed, mae'r cynnydd hwn wedi'i yrru'n bennaf gan atgyfeiriadau ar gyfer gofal a chymorth ac i Blant a Phobl Ifanc, mae'r cynnydd hwn wedi bod ar gyfer unigolion yr ystyrir eu bod mewn perygl.

ADRAN DAU: CYFLAWNI MEWN PARTNERIAETH

Crynodeb

- Fel un o ychydig iawn o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, mae gan yr Ymddiriedolaeth lu o randdeiliaid, a all wneud ymgysylltu'n gymhleth ac yn dameidiog. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i flaenoriaethu'r perthnasoedd allweddol hyn o ystyried y manteision a gronwyd.
- Fel gwasanaeth a gomisiynwyd a darparwr allweddol gofal brys ac argyfwng, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos gyda'r Cyd-bwyllgor Comisiynu, byrddau iechyd a chydweithwyr Llywodraeth Cymru, gan gymryd rhan lawn mewn rhaglenni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol, gan gynnwys y Rhaglen Chwe Nod.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu'r cyfle i gyfrannu ar lefel system drwy'r Rhaglen Gymunedol o'r Cychwyn ac mae hefyd wedi bod yn archwilio opsiynau gyda'r Cyd-bwyllgor Comisiynu o ran y mecanweithiau mwyaf priodol i hwyluso ffocws comisiynu mwy strategol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fuddsoddi amser ac egni sylweddol i gryfhau partneriaeth gymdeithasol, gan gael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad a diwylliant y gweithlu, gyda strwythur aml-haen cadarn ar gyfer cydweithio ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn wylidwrus o'r risg weddilliol o weithredu diwydiannol.
- Fel Ymatebwr Categori 1 yn ôl y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal ei chyfranogiad ar draws y pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, a hefyd mewn grwpiau Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys eraill.
- O ystyried amcanion presennol yr Ymddiriedolaeth, ei bwriadau cyflawni uchelgeisiol a'i heriau strategol, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar ffocysau wedi'u teilwra ar gyfer ymgysylltu i gynnwys partneriaethau masnachol, partneriaethau academiaidd, partneriaethau cyhoeddus/trydydd sector, ac ymgysylltu mewn perthynas â strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth.

Arweinyddiaeth system a gweithio mewn partneriaeth effeithiol gyda chomisiynwyr a phartneriaid

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i chomisiynu i ddarparu ei gwasanaethau gan y Cyd-bwyllgor Comisiynu. Gwahoddir Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth i fynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd pwyllgorau, mae cyfarfodydd perfformiad darparwyr / Cyd-bwyllgor Comisiynu rheolaidd ar lefel Cyfarwyddwr wedi'u sefydlu'n ddiweddar, ac mae cydweithwyr yn cymryd rhan weithredol yn yr ystod lawn o fforymau comisiynu penodol i wasanaethau. Mae comisiynwyr yn gosod bwriadau comisiynu ar gyfer y sefydliad bob blwyddyn a adlewyrchir yng nghynlluniau'r Ymddiriedolaeth, gyda chynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei adrodd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Fel sefydliad statudol, mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni ar draws y system: mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad yn eistedd ar Fwrdd y Rhaglen Chwe Nod; mae'r Prif Weithredwr

yn aelod o'r Rhaglen Gymunedol o'r Cychwyn sydd newydd ei sefydlu; ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i chynrychioli ar lefel uwch ar Grwpiau Arweinyddiaeth a Chyflawni Cenedlaethol y System Gofal Cymunedol Integredig. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth gymryd rhan mewn strategaeth a chyflawniad ar draws y system a dylanwadu arni.

Mae'r berthynas â chomisiynwyr yn parhau ar lefel leol, gyda chydweithwyr yr Ymddiriedolaeth yn cyfrannu'n weithredol at amrywiaeth o strwythurau'r byrddau iechyd sy'n cefnogi gofal brys ac argyfwng. Bu cydnabyddiaeth bod angen rhagor o amser i ddatblygu meddwl strategol mewn perthynas â'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau ambiwlans ac 111 yn y dyfodol, ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi o fewn y Cyd-bwyllgor Comisiynu ynghylch y mecanweithiau mwyaf priodol i hwyluso hyn yn y dyfodol.

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfranogwr ac yn aelod gweithredol yng nghyfarfodydd tîm Rheoli'r Prif Weithredwr a Bwrdd Arweinyddiaeth y GIG.

Fel Ymatebwr Categori 1 yn ôl y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal ei chyfranogiad ar draws y pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, a hefyd mewn grwpiau Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys eraill.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaethau cymdeithasol

Fel un o ychydig iawn o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, mae gan yr Ymddiriedolaeth lu o randdeiliaid, a all wneud ymgysylltu'n gymhleth ac yn dameidiog. Er bod problemau ailintegreiddio'r Ymddiriedolaeth fel sefydliad allweddol o fewn y system iechyd a gofal ehangach yn ddifrifol ddegawd yn ôl, nid yw hynny mor wir erbyn hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran cael ei hystyried gan lawer o randdeiliaid fel partner system arloesol ac, er nad oes amheuaeth bod peth pellter i fynd, mae'r sefydliad mewn lle gwahanol iawn o'i gymharu â lle'r oedd tua 10 mlynedd yn ôl.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae ffocws gweithgaredd ymgysylltu â rhanddeiliaid yr Ymddiriedolaeth wedi bod ar ennill cefnogaeth a dealltwriaeth o esblygiad ei model clinigol, ynghyd â gwerthfawrogiad o'r effaith y gall yr Ymddiriedolaeth, fel un o'r ychydig iawn o ddarparwyr GIG ledled Cymru, ei chael ar system ehangach GIG Cymru gyda'r lefel gywir o gydweithio. Roedd cyfranogiad Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn allweddol i lunio'r gweithgaredd hwn ac iddynt ddeall yr adborth gan randdeiliaid, gan gynnwys Llais, ar y model clinigol. Roedd aelodau'r Bwrdd yn gallu siarad yn uniongyrchol â staff mewn sioeau teithiol y Prif Swyddog Gweithredol, digwyddiadau gwasanaeth hir a digwyddiadau gwobrwyo eraill yn ogystal ag ymweliadau rheolaidd y bwrdd, er mwyn cael syniad o'r gefnogaeth i'r model a'i effaith ar staff a chleifion.

Bu ffocws ar ennill cynrychiolaeth ar bartneriaethau statudol, a chyfrannu atynt, yn enwedig Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a oedd yn wreiddiol yn gyfrwng arian y Gronfa Gofal Integredig ac yn fwy diweddar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi elwa o hyn o ran gwelededd gyda phartneriaid a chyllid, yn enwedig i gefnogi cwmpadau a gwasanaethau ymateb iechyd meddwl. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn aelod o bob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddal y swydd o Is-gadeirydd yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gweithio'n agos gyda nifer o bartneriaid academiaidd, nid yn unig o ran hyfforddiant ac addysg, ond hefyd ym maes ymchwil ac arloesi, sy'n adlewyrchu ymrwymiad y sefydliad i ymgorffori statws ymddiriedolaeth brifysgol, yn ei gyfraniad at ymchwil a datblygu atebion arloesi i fynd i'r afael â heriau, yn ogystal â mabwysiadu arfer gorau wrth ddarparu gwasanaethau. Mae cefnogi staff i ddilyn eu datblygiad, boed hynny drwy addysg ffurfiol neu wrth ddatblygu eu syniadau ymchwil ac arloesi, yn parhau i fod yn ganolog wrth wneud y gorau o'r manteision y mae statws ymddiriedolaeth brifysgol yn eu golygu.

Mae perthynas yr Ymddiriedolaeth â gwasanaethau brys eraill hefyd yn bwysig, o safbwynt ymateb ond hefyd o ran cynghreiriau strategol y gellir adeiladu arnynt i gefnogi darparu gwasanaethau i gleifion. Yn yr un modd, mae gan yr Ymddiriedolaeth rai partneriaethau strategol â sefydliadau'r trydydd sector, fel Ambiwlans Sant Ioan Cymru, sy'n cefnogi darpariaeth weithredol ac yn cyflwyno cyfle ar gyfer cydweithio ehangach.

Am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi lleihau ei risg i enw da yn ddiweddar (201), gan ddadgrynhoi agweddau profiad rhanddeiliaid a chleifion y risg wreiddiol, er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yn fwy cywir. Fodd bynnag, cydnabyddir, lle mae perfformiad yn parhau i fod yn fregus a phrofiad cleifion yn is-optimaid, fod enw da'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod mewn perygl.

Yr her graidd nawr yw sicrhau bod dull yr Ymddiriedolaeth o gydweithio, partneriaeth ac ymgysylltu yn canolbwyntio'n benodol ar nifer fach o faterion sydd angen ffocws llym er mwyn cyflawni canlyniadau gwell i'r sefydliad, ei bobl a'r boblogaeth yn ehangach.

O ystyried amcanion presennol yr Ymddiriedolaeth, ei bwriadau cyflawni uchelgeisiol a'i heriau strategol, mae'n debygol y bydd y ffocysau mwy pwrpasol hyn ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol yn cynnwys y canlynol:

- partneriaethau masnachol (i ategu agenda masnacheiddio/cynaliadwyedd ariannol yr Ymddiriedolaeth, yn ogystal ag edrych ar ble y gall partneriaethau masnachol ddarparu datrysiadau i heriau penodol, er enghraifft yn y maes digidol)
- partneriaethau academiaidd (ar yr ochr ymchwil ac arloesi, yn ogystal â'r dimensiynau dysgu ac addysg a gweithlu'r dyfodol)
- partneriaethau rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector (er enghraifft, ar agweddau penodol ar gyflawni neu seilwaith, ac yn enwedig o ran ymgysylltu'n well â byrddau iechyd fel partneriaid cyflawni a chomisiynwyr)
- ymgysylltu (â rhanddeiliaid, y cyhoedd a chleifion) mewn perthynas â strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fuddsoddi amser ac egni sylweddol i gryfhau partneriaeth gymdeithasol, gan gael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad a diwylliant y gweithlu. Rydym wedi sefydlu strwythur cadarn, aml-haenog ar gyfer cydweithio ar draws y sefydliad, gan ddechrau gyda Fforymau Partneriaeth Lleol lle mae Partneriaid Undebau Llafur a thimau rheoli yn mynd i'r afael â materion penodol i wasanaethau. Mae hyn yn cael ei ategu gan y Fforwm Partneriaeth Gorfforaethol, cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain Gweithredol/Partner Undeb Llafur, a fforymau lefel arweinyddiaeth, i gyd wedi'u hategu gan

drefniadau llywodraethu. Ein Tîm Partneriaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yw ein prif fforwm partneriaeth lefel strategol sy'n cyfarfod bob deufis ac yn adrodd i Bwyllgor Pobl a Diwylliant y bwrdd.

Ym mis Chwefror 2025, cyflwynodd dau Bartner Undeb Llafur ar y cyd â chydweithwyr o'r tîm Pobl a Diwylliant yng Nghynhadledd Arweinyddiaeth Ambiwlans, gan rannu taith yr Ymddiriedolaeth i "Gerdded yn Esgidiau Ei Gilydd", y tro cyntaf i'r digwyddiad ei wneud. Gan adeiladu ar y momentwm hwn, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ei Chynhadledd Partneriaeth Gymdeithasol gyntaf erioed ar gyfer rheolwyr a Phartneriaid Undebau Llafur ym mis Mawrth 2025, gyda chyfeiriadau allweddol gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol a Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngres yr Undebau Llafur. Mae cynlluniau eisoes ar y gweill ar gyfer digwyddiadau tebyg sy'n canolbwyntio ar ddysgu yn 2026, wedi'u hanelu at reolwyr rheng flaen a Phartneriaid Undebau Llafur.

Mae Partneriaid Undebau Llafur yn chwarae rhan hanfodol mewn cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau, grwpiau tasg a gorffen gweithredol, gwaith achos a gwaith prosiect, gan sicrhau bod lleisiau cydweithwyr yn cael eu cynrychioli'n gyson. Er bod dadleuon a thrafodaethau yn aml yn gadarn ac yn heriol, maent yn parhau i fod yn barchus, yn broffesiynol ac yn adeiladol, gan adlewyrchu cryfder ein dull partneriaeth.

Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn monitro ein prif risg sy'n gysylltiedig â chynnal perthnasoedd Partneriaid Undebau Llafur effeithiol a chryf ym mhob cyfarfod. Er i'r risg gynyddu yn 2023 a 2024, mae wedi aros ar sgôr o 12 ers mis Tachwedd 2024.

Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn ddall i'r risg weddilliol o weithredu diwydiannol yn y dyfodol ond mae'n credu y bydd ei pherthnasoedd Partneriaid Undebau Llafur wedi'u cryfhau'n llawer yn sicrhau y gellir rheoli unrhyw gamau a gymerir ar faterion cenedlaethol neu, yn wir, lleol yn effeithiol, fel yr oedd yn 2022/23, er gwaethaf y ffaith bod unrhyw gamau'n peri problem diogelwch cleifion.

Llwybrau Gofal ac Integreiddio Systemau Ehangach

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio ar y cyd ar draws y system gofal brys a gofal mewn argyfwng ehangach i gefnogi mwy o ddarpariaeth gofal yn nes at adref, gan alluogi cyflwyno un pwynt mynediad a gweithredu'r rhaglen Galw Cyn Anfon / Galw Cyn Cludo genedlaethol. Mae'r mentrau hyn wedi'u cynllunio i leihau cludiant diangen i'r ysbyty a gwella profiadau cleifion.

Fodd bynnag, er gwaethaf sawl blwyddyn o weithio mewn partneriaeth, mae cynnydd ar lwybrau amgen cymunedol ac Adrannau Argyfwng wedi bod yn anghyson. Mae amrywiad sylweddol yn parhau ar draws ardaloedd byrddau ieuchyd, yn enwedig o ran meini prawf derbyn, oriau agor a pharodrwydd i dderbyn risg. Er mwyn i lwybrau amgen fod yn effeithiol wrth leihau nifer y bobl sy'n mynychu Adrannau Argyfwng, mae cysondeb ar draws y system yn hanfodol. Rhaid i feini prawf derbyn fod yn gydnaws ag anghenion cleifion, a rhaid i lwybrau gofal fod yn ddigon cadarn i gefnogi cleifion â chyflwyniadau cynyddol gymhleth.

Gobeithir y bydd mwy o gydweithio â byrddau iechyd yn y flwyddyn nesaf, ynghyd â mwy o gyfle ar gyfer trafodaeth strategol, trwy fecanweithiau'r Cyd-bwyllgor Comisiynu, gwell rhyngweithio rhwng swyddogion gweithredol a byrddau iechyd a chyfranogiad mewn mentrau fel Cymunedol o'r Cychwyn, yn gweld newid sylweddol yng nghysondeb ac argaeledd llwybrau cymunedol ledled Cymru, a fydd yn galluogi cleifion i lifo'n fwy di-dor i'r llwybr gofal mwyaf priodol.

Sut mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi amcanion Cynllun Iechyd Menywod

Mae iechyd menywod, yn enwedig gofal mamolaeth a newyddenedigol, yn parhau i fod yn flaenoriaeth hollbwysig i'r Ymddiriedolaeth. Mae digwyddiadau mamolaeth a newyddenedigol heb eu cynllunio mewn lleoliadau y tu allan i'r ysbyty yn cyflwyno gwendidau unigryw, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar sicrhau gwneud penderfyniadau amserol a phriodol yn glinigol ar draws llwybrau gofal brys ac argyfwng i gefnogi staff a darparu gofal diogel a thosturiol i fenywod, babanod a'u teuluoedd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y pryder y gall beichiogrwydd, yn enwedig yn ei gamau cynnar, ei achosi i fenywod a theuluoedd. Y ffocws parhaus yw sicrhau bod unrhyw un sy'n cysylltu â GIG 111 Cymru neu 999 yn cael ei drin â thrugaredd a'i gefnogi trwy lwybrau gofal sy'n briodol yn glinigol, yn ymatebol yn emosiynol ac wedi'u teilwra i anghenion unigol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i weithio tuag at system lle mae menywod a theuluoedd yn derbyn y gofal cywir, y tro cyntaf, trwy lwybrau sy'n glir, yn ddiogel ac yn ymatebol.

Mae'r ymrwymiad hwn wedi sbarduno arweinyddiaeth, llywodraethu a ffocws clinigol cryfach dros y deunaw mis diwethaf i wella diogelwch, cysondeb ac integreiddio systemau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi chwarae rhan weithredol yn hyrwyddo diogelwch argyfwng cyn mynd i'r ysbyty a diogelwch newyddenedigol ledled Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd a rhanddeiliaid cenedlaethol. Mae hyn wedi cynnwys cryfhau mynediad at gyngor clinigol amserol ar gyfer timau rheng flaen a defnyddwyr gwasanaeth, gwella llwybrau uwchgyfeirio i gefnogi trosglwyddo menywod a babanod yn gyflym ac yn ddiogel pan fo angen, ac ymgorffori dysgu trwy adolygu digwyddiadau yn amserol ac yn gymesur. Mae gwelliannau wedi'u cyflawni mewn cyfarwyddiadau cyn cyrraedd, canllawiau clinigol a chefnogaeth broffesiynol i staff, ochr yn ochr â rhyngwynebau cliriach rhwng gofal brys a gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, gan gyfrannu at well cydraddoldeb a chysondeb gofal.

Gan adeiladu ar y sylfaen hon, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda Phrif Swyddog Bydwreigiaeth Llywodraeth Cymru i gwmpasu Llinell Famolaeth Genedlaethol. Byddai'r rhaglen hon yn y dyfodol, os caiff ei chomisiynu, yn gwella mynediad at gyngor mamolaeth arbenigol, yn lleihau amrywiad mewn gwneud penderfyniadau, ac yn cefnogi gofal mwy diogel yn nes at adref, gyda llwybrau uwchgyfeirio clir ar gyfer gofal wyneb yn wyneb neu frys pan fo angen clinigol. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu dysgu o ddigwyddiadau, adolygiadau ac adborth defnyddwyr gwasanaeth, ac yn cyd-fynd ag ymdrechion system ehangach i gryfhau diogelwch mamolaeth a newyddenedigol.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cydnabod pwysigrwydd dull llwybr cyfan ar gyfer iechyd menywod. Mae gwaith sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl amenedigol yn cael ei ystyried

ochr yn ochr â gofal mamolaeth a newyddenedigol, gan gydnabod y rhyngweithio rhwng iechyd meddwl, diogelu, mynediad at wasanaethau a chanlyniadau i'r rhiant a'r baban. Mae hyn yn cynnwys cryfhau ymwybyddiaeth, cynyddu gofal a gweithio mewn partneriaeth i sicrhau cefnogaeth amserol a phriodol i'r rhai sy'n profi anghenion iechyd meddwl amenedigol.

Goresgyn Anghydraddoldebau Iechyd.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu cyfleoedd lleoli ar gyfer Cofrestrwyr Arbenigol Iechyd Cyhoeddus. Cynhaliwyd y Gofrestr Arbenigol cyntaf yn 2025 ac arweiniodd ar sawl darn o waith gan gynnwys cynnal asesiad sylfaenol o ddull yr Ymddiriedolaeth o ymdrin ag iechyd y boblogaeth a'r cyhoedd gan ddefnyddio offeryn asesu sydd wedi'i fabwysiadu gan wasanaethau ambiwlans y DU. Mae argymhellion o'r Gofrestr Arbenigol wedi'u hystyried a byddant yn llywio'r gwerthusiad o'r Trawsnewidiad Model Clinigol a hefyd, sut mae dadansoddiadau iechyd y boblogaeth yn cael eu hymgorffori mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Maes allweddol o ffocws yn ystod y misoedd diwethaf fu ystyried datblygu mewnwelediad i benderfynyddion iechyd sy'n dylanwadu ar ganlyniadau cleifion yng ngofal yr Ymddiriedolaeth. Yn benodol, y tîm gwasanaethau data integredig a fydd yn sicrhau dadansoddiadau sy'n seiliedig ar ardaloedd allbwn i nodi ffactorau posibl, gan gynnwys amddifadedd, natur wledig ac ethnigrwydd.

ADRAN TRI: CRYFHAU'R SEFYDLIAD

Crynodeb

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd sefydlogrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei sefydliad o ddifrif. Mae cynaliadwyedd y sefydliad yn un o'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'w amcanion lles, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol gref, fel y dangosir gan asesiad Strwythuredig cadarnhaol gan Archwilio Cymru a thrwy aros ar lefel uwchgyfeirio un. Mae adolygiad effeithiolrwydd annibynnol o'r Bwrdd wedi'i gomisiynu i gryfhau gafael strategol a chapasiti ymhellach.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgorffori diwylliant risg cryf ar lefel y Bwrdd, gyda'r prif risgiau'n gysylltiedig ag amcanion strategol ac yn destun goruchwyliaeth reolaidd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu ac yn ymgorffori Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd strategol a datganiadau parodrwydd i dderbyn risg fel rhan o adnewyddu strategaeth 2026/27.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth record gref a chynaliadwy o ran cyflawniad ariannol, gan gydbwysu ei chyllideb am y deng mlynedd diwethaf ac yn parhau ar y trywydd iawn i wneud elw yn 2025/26. Er mwyn cryfhau cynaliadwyedd tymor hwy, mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu ei Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol, yn datblygu gallu masnachol, ac yn hyrwyddo adolygiadau gwasanaeth a chynhyrchiant i sicrhau arbedion cylchol ac incwm yn y dyfodol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei diwylliant sefydliadol, gyda chynnydd mesuradwy mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, twf mewn rhwydweithiau staff (dros 1000 o aelodau staff bellach), gwell gallu yn y Gymraeg a defnydd o offeryn Sgôr Rhybudd Cynnar Diwylliannol. Cwblhaodd 43.2% o staff yr arolwg staff eleni, gwelliant sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol.
- Mae absenoldeb oherwydd salwch wedi lleihau'n sylweddol o'r lefelau uchel a welwyd yn ystod y pandemig, gyda chefnogaeth gwasanaethau lles gwell, cefnogaeth sy'n seiliedig ar drawma a darpariaeth lechyd Galwedigaethol well, ond gyda lefelau salwch yn 9% ym mis Rhagfyr, mae cynnydd pellach i'w wneud o hyd gyda hyn yn ffocws allweddol a pharhaus i'r sefydliad.
- Mae gallu arweinyddiaeth yn cael ei ddatblygu drwy fframwaith "Ein Ffordd WAST", cynllunio olyniaeth well a llwybrau arweinyddiaeth glinigol a rheolaethol wedi'u cryfhau.
- Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn feysydd ffocws allweddol, wedi'u hategu gan berfformiad hyfforddiant gorfodol cryf, trosiant isel, a gwaith i fynd i'r afael â chyflenwad gweithlu gwledig a datblygiad gyrfa. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo'n benodol i wella sifftiau'n gor-reddeg er mwyn gwella profiad gwaith i staff rheng flaen.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau adolygiad cynhwysfawr o'r Ymchwiliad Arena Manceinion, wedi nodi 68 o argymhellion perthnasol, ac wedi cyflwyno datrysiadau

yn seiliedig ar dystiolaeth i gomisiynwyr, gyda phenderfyniadau'n dal i gael eu disgwyl. Mae risg gorfforaethol bwrpasol wedi'i sefydlu i ddilyn y camau gweithredu sy'n weddill sydd angen buddsoddiad, wedi'i ategu gan groesgyfeirio ag ymholiadau cenedlaethol eraill.

- Fel ymatebwr Categori 1, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymgysylltu'n llawn â strwythurau argyfyngau sifil cenedlaethol a rhanbarthol, wedi cymryd rhan weithredol yn Ymarfer Pegasws, ac yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd i ddiweddar ei Chynllun Pandemig.

Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod ar lefel uwchgyfeirio un (trefniadau arferol). Canfu Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru ar gyfer 2025 fod:

- mae gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd effeithiol a gefnogir gan drefniadau llywodraethu da
- Mae systemau ar gyfer rhoi sicrwydd i'r bwrdd yn effeithiol ac yn cael eu cryfhau trwy ddatblygu'r BAF ymhellach
- mae cynllun ansawdd newydd yn cael ei weithredu
- mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adrodd am heriau i gyflawni targedau perfformiad allweddol
- cyflwynwyd newidiadau i sut mae ymatebion ambiwlansys yn cael eu mesur yn ystod 2025, gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau i gleifion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i wybod pa effaith y mae'r newidiadau'n ei chael ar ansawdd gwasanaethau.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig clir a chymeradwy ac mae wedi cymeradwyo set o amcanion lles yn ddiweddar. Mae hefyd yn cynnal adnewyddiad amserol o'i strategaeth hirdymor
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth nifer sylweddol o raglenni newid ar y gweill, gyda chapasiti cyfyngedig i'w cefnogi. O ganlyniad, mae'n oedi datblygiad rhai cynlluniau corfforaethol ac yn gohirio rhai gweithgareddau a gynlluniwyd i ddiogelu capasiti ar gyfer blaenoriaethau allweddol.
- rheolodd yr Ymddiriedolaeth ei harian yn dda i gyflawni ei dyletswyddau ariannol allweddol yn ystod 2024-25
- ar nodyn cadarnhaol, mae'n lleihau ei ddibyniaeth ar gynilion afreolaidd. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu pwysau ariannol cynyddol heriol eleni sy'n creu risgiau i gyflawni ei sefyllfa adennill costau a ragwelwyd. Mae angen egluro fforddiadwyedd rhai o gynlluniau strategol yr Ymddiriedolaeth.

Er bod gan y bwrdd a'i bwyllgorau drefniadau cryf ar waith eisoes, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflogi'r Good Governance Institute (GGI) i gynnal rhaglen effeithiolrwydd bwrdd o bedwerydd chwarter 2025/26. Mae'r asesiad hwn yn rhan allweddol o ymrwymiad y sefydliad i welliant parhaus a symleiddio llywodraethu yn yr Ymddiriedolaeth. Bydd y GGI yn adolygu cylch gwaith a dosbarthiad pwyllgorau'r bwrdd i sicrhau eu bod yn gymesur ar gyfer

sefydliad o'r maint a'r cymhlethdod hwn, yn archwilio cyfleoedd i gael gwared ar ddyblygu wrth graffu gan Bwyllgorau, ac yn cynnig ffyrdd o wneud yr agenda'n fwy strategol ac yn adlewyrchu cyfrifoldeb y bwrdd dros ddiwylliant sefydliadol. Drwy gydol y cyfnod, bydd y ffocws yn parhau ar gynnal sicrwydd cadarn a goruchwyliaeth strategol, gan sicrhau bod gwaith y bwrdd yn parhau i fod â ffocws priodol ar y lefel strategol.

Yn ogystal â chyfres o ddiwrnodau datblygu chwarterol, cwblhaodd y Tîm Arwain Gweithredol brosesau adborth 360 gradd grŵp a oedd yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid. Yn dilyn hyn, rhannodd y Tîm Arwain Gweithredol adborth a chynhaliodd sesiynau deialog agored gyda'i adroddiadau uniongyrchol. Gan adeiladu ar hyn, cynhaliodd Grŵp Tîm Arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Cynorthwyol broses 360 hefyd i gefnogi eu datblygiad. Mae'r camau gweithredu hyn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth ac yn rhoi mwy o amlygiad i uwch arweinwyr i'r ymddygiadau a ddisgwylir ar y lefel hon, gan gryfhau gallu arweinyddiaeth a'u paratoi ar gyfer rolau yn y dyfodol.

Rheoli Risg

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu diwylliant risg rhagorol ar lefel sefydliadol a bwrdd, sydd wedi'i wreiddio'n gadarn yn ein trefniadau llywodraethu ac wedi'i alinio â'n hamcanion strategol. Y prif risgiau sy'n llywio agenda ein bwrdd a'n pwyllgorau ac fe'u hadolygir ym mhob cyfarfod, gan sicrhau goruchwyliaeth gadarn a gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r dull hwn yn galluogi adnabod risgiau'n gynnar, asesu a rheoli risgiau'n effeithiol, gan gefnogi darparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel a chydymffurfio â dyletswyddau statudol ac ariannol.

Mae ein cryfder presennol yn gorwedd yn y diwylliant risg datblygedig hwn a'r cysylltiad clir rhwng risgiau ag amcanion strategol. Fodd bynnag, mae angen aeddfedu ymhellach drwy ddatblygu BAF sy'n rhoi golwg gliriach i'r bwrdd ar risgiau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â phob amcan strategol, ynghyd â chryfder y sicrwydd ar gyflawni a lliniaru. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i ddeall yn well ble mae sicrwydd yn gryf a ble mae bylchau'n parhau.

Mae datblygiad y BAF strategol hwn ar y gweill ar hyn o bryd, yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd yn 2025 o fformat a llif adrodd sicrwydd ar gyfer y BAF yn ogystal â chyfres o ddatganiadau parodrwydd i dderbyn risg sy'n gysylltiedig â phob amcan strategol. Bydd y datganiadau hyn yn darparu modd o fesur goddefgarwch a byddant yn helpu i lunio penderfyniadau ar draws y sefydliad. Y camau nesaf yw ymgorffori dealltwriaeth gyffredin o parodrwydd i dderbyn risg ar bob lefel a'i gweithredu mewn ffordd sy'n cefnogi penderfyniadau doeth, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnal aliniad rhwng uchelgeisiau sefydliadol, cyflawniad gweithredol, a disgwyliaid llywodraethu. Bydd adnewyddu ein Strategaeth Hirdymor a fydd yn dechrau yn 2026/27 yn gyfle gwych i aeddfedu ein BAF a'i alinio ymhellach ag unrhyw amcanion strategol wedi'u hadnewyddu.

Cynaliadwyedd Ariannol

Sefyllfa Ariannol 2025/26

Mae gan yr Ymddiriedolaeth hanes cryf o gyflawniad ariannol, gan gydbwysu ei chyllideb heb yr angen am unrhyw gefnogaeth allanol ar gyfer pob un o'r 10 mlynedd diwethaf ac mae ar y trywydd iawn i wneud hynny eto'r flwyddyn ariannol hon. Mae hyn wedi'i ategu gan reolaeth ariannol gref a chywirdeb sy'n amlwg mewn amrywiaeth o werthusiadau allanol,

gan gynnwys Aseidiadau Strwythuredig blynyddol Archwilio Cymru, amrywiol Adroddiadau Archwilio Mewnol a thrwy gael barn ddiamod ar ei Gyfrifon Blynyddol.

Datblygodd yr Ymddiriedolaeth gynllun ariannol uchelgeisiol ond cyraeddadwy ar gyfer 2025/26 fel rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan gyflwyno cynllun ariannol cytbwys ond nid heb rai risgiau cynhenid, gan gynnwys mewn perthynas â rhagdybiaethau ynghylch cyflawni arbedion. Roedd y cynllun ariannol yn seiliedig ar set o dybiaethau incwm allweddol ynghyd â tharged arbedion uchelgeisiol o £8.5m (tua 3%).

Mae sefyllfa ariannol refeniw cronus y flwyddyn hyd yma (fel ym Mis 10, Ionawr 2026) yn danwariant bach yn erbyn y gyllideb o £0.137m. Mae'r rhagolygon refeniw ar gyfer 2025/26 yn dal i fod yn un o adennill costau, ac mae hyn yn dilyn adolygiad manwl o bwysau costau, trywydd y cynllun arbedion a lefelau gwariant arfaethedig drwy gydol cyfnod y gaeaf a gweddill Ch4.

Yn unol â'r cynlluniau arbedion ariannol (£8.5m) sy'n cefnogi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, cyflawnwyd arbedion gros o £7.176m yn erbyn targed hyd yma o £7.055m ar gyfer y flwyddyn, felly mae gorgyflawniad o £0.121m hyd yma o'r flwyddyn, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn cyflawni'r £8.5m yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn. Un peth cadarnhaol arall yw lefel yr arbedion cylchol sy'n cael eu cyflawni nawr, sy'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Mae cynllun cyfalaf 2025/26 yn cael ei ddatblygu, a rhagwelir y bydd y gwariant cynlluniedig cyfredol o £32.570m wedi'i wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, mae hyn yn cynnwys y cyllid ar gyfer rhaglen amnewid fflyd 2025/26, ynghyd â rhywfaint o gyflymu cyllid tuag at raglen amnewid fflyd 2026/27, nawr bod cyllid ar gyfer hyn wedi'i gadarnhau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth hon ar y cyd â'n rhaglen amnewid fflyd, sy'n caniatáu i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod cerbydau'n cael eu newid o fewn eu proffil oedran cymaint â phosibl.

Mae'r risgiau a adroddwyd yn sefyllfa ariannol Mis 10 wedi'u lleihau yn dilyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru o'r gefnogaeth i'r cynnydd yng Nghronfa Risg Cymru yng nghostau'r flwyddyn. Mae hyn wedi caniatáu i'r Ymddiriedolaeth liniaru amrywiaeth o risgiau eraill yn ystod y flwyddyn i gyflawni, gan allu sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn dal i allu rhagweld sefyllfa o adennill costau yn 2025/26. Mae rhywfaint o hyn yn cynnwys gwariant a osodwyd yn erbyn pryniannau hanfodol i gefnogi rhan o'r argymhellion sy'n weddill sy'n ymwneud ag Ymchwiliad Arena Manceinion. Mae hyn ar y sail nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn unrhyw gyllid neilltuedig ar gyfer yr argymhellion hyn hyd yn hyn (gweler isod am ragor o wybodaeth).

Cynlluniau gwerth a chynaliadwyedd

Crëwyd y Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol a sefydlwyd ym mis Mai 2022 i ddarparu cynaliadwyedd ariannol, sicrwydd a goruchwyliaeth er mwyn galluogi cyflawni amcanion y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Ers ei sefydlu, mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar gyflawni arbedion ac effeithlonrwydd tra hefyd yn nodi cyfleoedd i gynhyrchu incwm newydd. Wrth symud ymlaen, bydd yn monitro cynlluniau arbed a chyflawniad ac yn ystyried canlyniad adolygiad gwasanaeth a meincnodi'r Cyd-bwyllgor Comisiynu i

drawsnewid gwasanaethau i fod yn effeithiol, gan helpu i gynllunio ar gyfer blynyddoedd ariannol y dyfodol.

Ym mis Ionawr 2024, cyflogwyd Akeso Consultancy i gynnal dadansoddiad marchnadoedd o gyfleoedd masnachol, ac erbyn mis Mawrth 2024, cyflwynwyd y canfyddiadau i'r bwrdd. Derbyniwyd yr argymhellion, a chymeradwywyd cyllid i recriwtio Pennaeth Datblygu Masnachol, a ddechreuodd yn ei rôl ym mis Hydref 2025. Drwy Bwyllgor Llywio Masnachol pwrpasol, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio meithrin partneriaethau masnachol dibynadwy ac arloesol, creu gwerth cynaliadwy, a galluogi ail-fuddsoddi mewn gofal cleifion a lles cymunedol ledled Cymru. Bydd y 12 mis cyntaf yn cael eu treulio yn meithrin capasiti gyda thargedau incwm i'w nodi wedyn ar gyfer 2027/28 a thu hwnt.

Mae datblygiadau diweddar wedi cynnal ffocws cryf ar effeithlonrwydd cost a chynhyrchu incwm. Mae pob un o'r 24 argymhelliad o Adolygiad Gweinyddol a Chymorth 2023 wedi'u gweithredu neu eu hymgorffori yng nghynlluniau'r cyfarwyddiaethau, ac mae'r adolygiad wedi'i gau'n ffurfiol gyda chymeradwyaeth gan y Grŵp Llywodraethu FSP.

Yn ogystal, cwblhawyd Adolygiad Gwasanaeth cynhwysfawr ar draws y sefydliad yn 2023, gan ymgysylltu â mwy na 50 o feysydd gwasanaeth a chynhyrchu mwy na 330 o gynigion gwella. Mae'r argymhellion hyn wedi'u strwythuro'n bedair haen o weithredu, wedi'u cefnogi gan fecanweithiau llywodraethu i sicrhau blaenoriaethu, atebolrwydd a gwireddu buddion. Mae adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd i fesur cynnydd yn erbyn y camau gweithredu. Er mwyn cryfhau'r gwaith hwn, bydd Grŵp Cyfleoedd Prosiect yn cael ei sefydlu'n fuan i nodi, cwmpasu ac asesu cyfleoedd ar gyfer arbedion sy'n rhyddhau arian parod, osgoi gwariant ac yn cynhyrchu incwm ychwanegol.

Gan edrych ymlaen, mae'r camau nesaf yn cynnwys drafftio'r Cynllun Datblygu Masnachol a chwblhau camau gweithredu'r Adolygiad Gwasanaeth erbyn mis Ionawr 2026, cynnal cyfarfod cyntaf Grŵp Datblygu Masnachol y Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol ym mis Ionawr 2026, lansio'r Grŵp Cyfleoedd Prosiect ym mis Chwefror 2026, a chyhoeddi'r Cynllun Datblygu Masnachol ym mis Mawrth 2026.

Diwylliant a'r Gweithlu

Cynllun Pobl a Diwylliant

Mae Cynllun Pobl a Diwylliant y sefydliad yn adlewyrchu uchelgais yr Ymddiriedolaeth i greu diwylliant cadarnhaol, cynhwysol a pherfformiad uchel lle mae cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd nodedig o ran cyflawni amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae amrywiaeth y gweithlu wedi gwella, gyda chynnydd mewn cynrychiolaeth ymhlith staff lleiafrifoedd ethnig, cydweithwyr ag anableddau, cymunedau LHDTTC+ a siaradwyr Cymraeg. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau hefyd wedi culhau, ac mae dadansoddiad cynnar o Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu yn dangos newidiadau cadarnhaol ym mhrofiadau staff lleiafrifoedd ethnig ac ehangu cynrychiolaeth. Mae'r cyflawniadau hyn wedi cael eu cefnogi gan fentrau sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth a diwylliant, ymgyrchoedd recriwtio cynhwysol, a mynediad gwell at wasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain.

Mae data yn adlewyrchu cynnydd ar draws pob maes o amrywiaeth a thegwch yn y gweithlu. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau i 5.3%, ac mae cynrychiolaeth ymhlith staff lleiafrifoedd ethnig, cydweithwyr LHDTTC+, a'r bobl ag anableddau wedi cynyddu. Mae cydbwysedd rhywedd yn parhau'n gryf, gyda menywod bellach yn cyfrif am 50.5% o'r gweithlu. Er gwaethaf y cyflawniadau hyn, mae heriau'n parhau, yn enwedig o ran blaenoriaethau cystadleuol a chyfyngiadau adnoddau, a all gyfyngu ar ymgysylltiad â mentrau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae demograffeg bresennol y gweithlu hefyd yn peri rhwystrau i wireddu uchelgais yr Ymddiriedolaeth yn llawn o ddod yn gyflogwr a darparwr gwasanaeth gwirioneddol gynhwysol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull o adolygu a llunio diwylliant ar draws y sefydliad drwy broses datblygu sefydliadol strwythuredig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sef y fframwaith "Gweithio'n Dda Gyda'n Gilydd", wedi'i ategu gan yr offeryn Sgôr Rhybudd Cynnar Diwylliannol (CEWS). Mae CEWS wedi'i ddatblygu'n fewnol ac mae'n gweithredu fel canllaw cefnogol a rhyngweithiol i reolwyr a thimau asesu diwylliant eu tîm ar y cyd, gan fynd i'r afael â dangosyddion allweddol fel ymgysylltiad, dynameg perthnasoedd, newid, lles, pryderon ymddygiad, presenoldeb, a metrigau allweddol eraill am bobl. Mae bellach yn cael ei rannu â nifer o sefydliadau'r GIG ledled Cymru i hwyluso asesiad rhagweithiol ac olrhain gwelliant mewn newid diwylliannol. Mae effaith yr offeryn a'r gefnogaeth gysylltiedig wedi bod yn gadarnhaol pan gaiff ei fabwysiadu mewn meysydd penodol o'r busnes ac mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gyflawni newid diwylliannol cynaliadwy ar lefel leol wedi'i groesawu a'i rannu'n ehangach. Mae adborth gan y cynllun peilot wedi dangos bod defnyddio CEWS wedi creu lle ar gyfer sgysiau agored a gonest, gan archwilio themâu neu resymau sy'n effeithio ar eu diwylliant nad oedd gan dimau o bosibl o'r blaen, gan gryfhau dealltwriaeth a rennir, cynyddu cefnogaeth a galluogi staff i gyfrannu'n weithredol at nodi a mynd i'r afael â phryderon diwylliannol a themlo bod eu llais wedi'i glywed.

Mae Codi Llais heb Ofn yn parhau i fod yn ymrwymiad parhaus i'r Ymddiriedolaeth, gan greu diwylliant lle mae staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i godi pryderon yn ddiogel ac yn hyderus. Mae Adroddiad Blynnyddol Codi Llais heb Ofn ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf 2024 i 30 Mehefin 2025 yn dangos bod 113 o bryderon wedi'u codi, gyda 56% wedi'u cyflwyno'n uniongyrchol i'r Gwarcheidwad a 44% drwy'r platfform Gweithio'n Hyderus. Dyfarnodd archwiliad PCGC sgôr sicrwydd rhesymol, gan adlewyrchu llywodraethu a phrosesau cadarn.

Mwy na Geiriau

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwerthfawrogi ac yn parchu ein staff, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid sy'n siarad Cymraeg, gan gefnogi'n weithredol recriwtio, cadw a datblygu siaradwyr Cymraeg ar draws y sefydliad. Mae darparu gwasanaethau dwyieithog yn hanfodol i ddarparu gofal diogel, cyfartal ac sy'n canolbwyntio ar y person, yn enwedig i'r grwpiau blaenoriaeth hynny a nodwyd yng nghynllun Mwy na Geiriau.

Mae Fframwaith Iaith yr Ymddiriedolaeth, sy'n ymgorffori Cynllun Gweithredu Mwy na Geiriau 2022-2027, yn nodi nodau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth i gynyddu gwelededd, hygyrchedd, a defnydd beunyddiol o'r Gymraeg a chyfleoedd ar gyfer y Gymraeg. Mae hefyd yn amlinellu targedau i wella cefnogaeth i gymunedau sy'n siarad Cymraeg ac i'n dysgwyr Cymraeg sy'n datblygu eu sgiliau iaith.

Mae arweinyddiaeth gref yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo'r agenda hon. Mae'r bwrdd yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy arweinyddiaeth weladwy, trefniadau llywodraethu clir, ac integreiddio o fewn cynllunio strategol. Am y rheswm hwn y mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn eistedd ochr yn ochr â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn ystyried y gwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ehangach, a'r Cynllun Pobl a Diwylliant gyda goruchwyliaeth o'r cynllun hwnnw, ac Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg gan y bwrdd.

Mae safonau darparu gwasanaethau (gohebiaeth a galwadau ffôn) wedi gwella yn dilyn cyflwyno gwasanaeth cyfieithu mewnol, yn ogystal â'r gallu i gyfieithu gohebiaeth, llwyfannau cyfathrebu a chyhoeddiadau'n gyflym ac yn ehangach a chyd-fynd â safonau. Mae mwy o waith i'w wneud fodd bynnag ar wasanaethau derbynfa fel y man galw cyntaf i siaradwyr Cymraeg.

Mae safonau llunio polisïau wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda chyflwyno Polisi Iaith Gymraeg ac integreiddio hynny i broses bolisi'r Ymddiriedolaeth. Aseiad o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob polisi Ymddiriedolaeth.

Mae cydymffurfedd â safonau gweithredol (h.y. defnyddio'r Gymraeg yn fewnol) yn cryfhau bob blwyddyn, gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr adnoddau sydd ar gael i staff yn fewnol ac yn ganolog. Mae 95.96% o staff wedi hunanasesu a chofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar y system Cofnod Staff Electronig (ESR). Anogir staff sy'n asesu ar lefel 0 i symud ymlaen i lefel 1 wrth iddynt gwblhau cyrsiau iaith Gymraeg.

Bu cynnydd cyson yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg wrth ffonio GIG 111 Cymru a NEPTS. Caiff defnyddwyr gwasanaeth eu croesawu gyda chyfarchiad dwyieithog, ac yna ein system Ymateb Llais Integredig sy'n caniatáu i alwyr ddewis yr iaith sydd well ganddynt, sef Cymraeg neu Saesneg. Yn ystod 2023/24 gwelodd Gwasanaeth GIG 111 Cymru gynnydd sylweddol ym mherfformiad ateb galwadau yn y Gymraeg gan godi o 18% yn 2022/23 i 45%. Yn 2024/25, arhosodd perfformiad yn sefydlog ar 45.7%. Mae cynllun gwella ar waith, sy'n cynnwys recriwtio wedi'i dargedu, proffilio galwyr a staffio dros y penwythnos, a hyblygrwydd optio allan i alwyr. Yn ystod 2024/25 roedd perfformiad NEPTS ar ateb galwadau yn y Gymraeg yn 77%. Mae cynllun ar

waith i flaenoriaethu recriwtio siaradwyr Cymraeg a'i alinio â'r strategaeth gweithlu ehangach ar gyfer 2026/27.

Yn 2026/27 bydd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu ei chynllun ymgynghori clinigol pum mlynedd yn unol â Safon 110. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn 2025/26 gyda ffocws ar ofal clinigol o bell i gefnogi cynnydd cynaliadwy mewn darpariaeth gwasanaeth dwyieithog.

Mae swyddogion ymchwilio sy'n siarad Cymraeg bellach ar gael pe bai staff yn dymuno i'w cwynion a'u gweithdrefnau disgyblu gael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan dudalen Gymraeg y fewnwyd nifer gynyddol o adnoddau i staff gyda sesiynau hyfforddi yn cael eu darparu i uwch arweinwyr i gynyddu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg wrth gynnal cyfarfodydd. Ers cyflwyno'r cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gorfodol ar 1 Ebrill 2023, mae 78% o staff wedi cwblhau'r cwrs. Caiff y cwrs ei hyrwyddo fel rhan o Ddiwrnodau Croeso WAST ar gyfer staff newydd ac yn ystod hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol Cymru.

Mae cwrs Cymraeg i ddechreuwyr newydd ar gyfer staff y Gwasanaethau Meddygol Brys wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r cwrs, sy'n cael ei arwain gan diwtor ar Teams, wedi'i deilwra ar gyfer staff sydd eisiau gallu ymgysylltu â'n cleifion sy'n siarad Cymraeg yn y pwynt cyswllt cyntaf hwnnw.

Mae safonau cadw cofnodion yn dangos bod safonau'n cael eu cynnal yn dda, gydag 1 gŵyn wedi'i derbyn yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn 2025/26.

Dychwelodd archwiliad mewnol 2025/26 ar yr iaith Gymraeg sgôr sicrwydd rhesymol ar ein trefniadau i ymgorffori'r iaith Gymraeg yn yr Ymddiriedolaeth.

Ymgysylltu â staff gan gynnwys yr arolwg staff

Mae ymgysylltu â staff yn hanfodol i ddiwylliant a pherfformiad sefydliadol. Roedd cyfradd ymateb Arolwg Staff GIG Cymru 2025 yn 43.2%, cynnydd parhaus o 35.2% yn 2024 a 23.2% yn 2023. Mae'r duedd ar i fyny hon yn adlewyrchu cyfranogiad cynyddol cydweithwyr a hyder bod adborth yn cael ei weithredu.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae dulliau ymgysylltu wedi cael eu cryfhau drwy wneud y canlynol:

- datblygu cyfathrebu sy'n ystyriol o ymddygiad
- cau dolenni adborth a dangos effaith weladwy
- cyflwyno arolygon pwls chwarterol sy'n cyd-fynd ag Ein Ffordd WAST i archwilio themâu sy'n dod i'r amlwg a chefnogi gwelliant parhaus
- darparu data ar lefel cyfarwyddiaeth i alluogi cynlluniau gweithredu lleol wedi'u targedu

Bydd arolygon pwls yn parhau i helpu cyfarwyddiaethau i brofi effeithiolrwydd camau gweithredu a gwneud addasiadau amserol. Unwaith y bydd canlyniadau terfynol yr arolwg ar gael yn chwarter 4, bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud y canlynol:

- cyhoeddi trosolwg sefydliadol ar ffurf ffeithlun
- rhannu dadansoddiad manwl gyda'r bwrdd, y tîm gweithredol, a Phartneriaid Undebau Llafur
- nodi themâu blaenoriaeth i lunio cylch arolwg pwls y flwyddyn nesaf a gweithgaredd ymgysylltu ehangach

Cynhelir rhaglen gynhwysfawr o'r bwrdd i'r rheng flaen yn weithredol, gan feithrin ymgysylltiad a thryloywder ledled y gweithlu. Wedi'i hyrwyddo trwy amrywiaeth o sianeli megis sioeau teithiol y Tîm Arwain Gweithredol, ymweliadau gan Gyfarwyddwyr Anweithredol, sesiynau WAST Live, blogiau a blogiau fideo. Mae'r gweithgareddau parhaus hyn yn sicrhau gwelededd cryf a chyfathrebu uniongyrchol rhwng y bwrdd a'r staff ar draws pob lefel o'r sefydliad.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gynyddol bryderus am yr effaith y mae'r amgylchedd gwaith presennol yn ei chael ar ein staff, gan fod llawer wedi nodi eu bod yn teimlo'n flinedig ac yn rhwystredig, ochr yn ochr â chynnydd mewn achosion o gam-drin gan gleifion a'r cyhoedd. Er bod materion fel diffygriad a lludded wedi cael eu hamlygu o'r blaen drwy'r arolwg staff, er enghraifft, mae'n amlwg bod yr heriau hyn yn parhau i effeithio'n sylweddol ar fywydau personol ein pobl. Am y rheswm hwn, mae lechyd a Llesiant yn flaenoriaeth, gan gynnig offer ac adnoddau ymarferol i helpu cydweithwyr a rheolwyr i adnabod arwyddion cynnar o straen a diffygriad, hwyluso trafodaethau lles ystyrlon, a gwneud addasiadau rhesymol i'r bobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor. Darperir mwy o fanylion yn yr adran isod.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod bod y lefel o newid o fewn y sefydliad wedi bod yn sylweddol. Mae'r dull newid yn adlewyrchu ein hymrwymiad i werthfawrogi ein pobl, gan gydnabod y cysylltiad uniongyrchol rhwng profiad cydweithwyr a phrofiad cleifion. Mae newid sy'n cael ei reoli'n wael yn cynyddu pwysau, ansicrwydd a diffygriad ond os caiff ei wneud yn dda, mae'n cefnogi hyder, lles a pherfformiad cynaliadwy. Mae newid sy'n cael ei reoli'n effeithiol yn cael ei ymgorffori fel bod cefnogi pobl trwy newid yn syml yn sut mae pethau'n cael eu gwneud ac nid yn ychwanegiad dewisol. Yn hytrach na dibynnu ar grŵp bach o arbenigwyr, mae gallu yn cael ei adeiladu ledled y sefydliad, gan gyfarparu arweinwyr a thimau i arwain a chefnogi newid yn lleol. Mae'r sgiliau a'r ymddygiadau hyn wedi'u hymgorffori yn fframwaith arweinyddiaeth a rheolaeth (Ein Ffordd WAST), ac wedi'u hatgyfnerthu trwy Gymuned Newid sy'n tyfu a'u cefnogi gan becyn cymorth ymarferol, pwrpasol. Yn gyffredinol, mae'r dull hwn yn cadw newid yn syml ac yn hygyrch, wedi'i alinio â gwelliant parhaus a chyflawni prosiectau, gan sicrhau bod newid yn teimlo'n gynhwysol, yn gefnogol ac yn gynaliadwy

Yn unol â'r uchelgais i fod yn gyflogwr o ddewis ac i wella profiad cyffredinol y gweithiwr ac yn dilyn y sesiynau hyfforddi gweithio hyblyg a gyflwynwyd i'r Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau, rhwng mis Awst 2024 a mis Rhagfyr 2025, cyflwynwyd cyfanswm o 460 o geisiadau gweithio hyblyg. O'r rhain, mae 258 wedi'u cymeradwyo, 9 wedi'u gwrthod, ac mae 193 yn parhau i gael eu prosesu. Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn yn meithrin deialog fwy agored, ymatebol a chynaliadwy gyda chydweithwyr am eu profiad yn y gwaith.


Datblygu Arweinyddiaeth (gan gynnwys arweinyddiaeth glinigol)

Lansiodd yr Ymddiriedolaeth ei fframwaith arweinyddiaeth a rheolaeth newydd, *Ein Ffordd WAST*, ym mis Mai 2025, sydd wedi'i adeiladu ar egwyddorion Gofal, Cysylltu, a Gwerthfawrogi Pawb. Mae'n adlewyrchu safonau arweinyddiaeth cenedlaethol a'r hyn y mae staff yr Ymddiriedolaeth wedi dweud sydd bwysicaf. Canolbwyntiodd Cam Un ar ymgorffori'r fframwaith drwy gyflwyno offer ymarferol i gefnogi arweinyddiaeth bob dydd.



Mae'r cyflenwad yn ystod y flwyddyn eisoes wedi dangos tyniant cadarnhaol. Mae mwy na 280 o gydweithwyr wedi cwblhau'r llyfryn rhyngweithiol a'r offeryn hunanasesu, mae dros 130 wedi cael mynediad at Hanfodion Rheoli, a dros 500 wedi mynychu dysgu byw drwy Ein Ffordd WAST a Sgyrsiau Hanfodol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Gymuned Arweinyddiaeth bellach wedi tyfu i bron i 400 o gydweithwyr, gan ddangos awydd clir am ddysgu a chysylltiad ar y cyd. Mae'r lefel hon o ymgysylltiad ystyrion yn dangos bod y fframwaith yn apelio at gydweithwyr ac eisoes yn helpu i feithrin sgyrsiau mwy hyderus, arfer arweinyddiaeth fwy cyson, a diwylliant mwy cysylltiedig.

Mae'r rhaglen bellach yn symud ymlaen i gam dau, a fydd yn canolbwyntio ar alinio rhaglenni dysgu ffurfiol â'r fframwaith a chryfhau gallu hyfforddi a mentora ar draws lefelau arweinyddiaeth.



Mae'r dull cynllunio olyniaeth arweinyddiaeth hwn yn canolbwyntio ar gryfhau gallu arweinyddiaeth ar bob lefel. Er bod rhaglenni datblygu ffurfiol yn parhau i fod yn bwysig a bod arweinwyr y dyfodol yn parhau i gael eu cefnogi trwy fentrau cenedlaethol fel y rhaglen Cyfarwyddwr Gweithrediadau Uchelgeisiol ar gyfer y sector ambiwlans, yn ogystal â rhaglenni a gyflwynir gan AaGIC, Academi Arweinyddiaeth y GIG ac Academi Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn blaenoriaethu'r cysylltiadau sy'n gwneud arweinyddiaeth yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys meithrin perthnasoedd cadarnhaol a chydlynid ar draws y sefydliad.

Mae gwaith diweddar wedi canolbwyntio ar y Tîm Arwain Gweithredol, ei adroddiadau uniongyrchol, a'r gymuned uwch arweinyddiaeth ehangach, gan gynnwys y bwrdd, i gyd yn cyd-fynd ag egwyddorion Ein Ffordd WAST. Mae gweithdai a sesiynau ymgysylltu wedi'u cynnal ar gyfer uwch arweinwyr, gan ganolbwyntio ar gydweithio, ymddiriedaeth a gweithio traws-swyddogaethol. Mae'r sesiynau hyn wedi cryfhau cysylltiadau ar draws y gymuned uwch arweinyddiaeth, gan helpu i adeiladu cymuned arweinyddiaeth unedig. Mae hyn yn rhoi cyfle i unigolion weld gwahanol ddulliau, meysydd gwaith a chyfleoedd, a fydd yn hanfodol wrth ddatblygu talent yn y dyfodol.

Mae gallu arweinwyr i gael sgysiau effeithiol ac ystyrion gyda'u staff yn hanfodol i wella lles a gwydnwch. Er bod cyfraddau cwblhau Adolygiadau Gwerthuso a Datblygu Perfformiad (AGDP) yn parhau i fod islaw targed Llywodraeth Cymru o 85%, mae'n bwysig sicrhau bod sgysiau AGDP yn rhai ystyrion sy'n cefnogi datblygiad ac ymgysylltu, yn hytrach na chael eu gweld yn unig fel ymarfer cydymffurfio. Felly, ffocws y sefydliad yw trawsnewid AGDP yn broses sy'n ychwanegu gwerth go iawn. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r fenter Sgysiau Hanfodol ehangach, sy'n anelu at feithrin hyder a gallu rheolwyr i gael sgysiau rheolaidd ac anffurfiol gyda'u timau. Drwy ymgorffori sgysiau dal i fyny un-i-un rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, bydd y broses AGDP yn cael ei chefnogi gan ddeialog barhaus, gan wneud yr adolygiad blynyddol yn fwy perthnasol ac effeithiol. Wrth i'r broses AGDP newydd gael ei dylunio, ei chymdeithasu a'i chwblhau, mae cynllun peilot wedi'i gynllunio ar gyfer chwarter 1 2026/27 gyda chyflwyniad sefydliadol ehangach wedi'i gynllunio ar gyfer chwarter 3 2026/27.

Mewn perthynas â datblygiad parhaus arweinyddiaeth glinigol, mae'r newidiadau i'r model clinigol a'r fframwaith perfformiad ambiwlansys yn cynyddu pwysigrwydd arweinyddiaeth glinigol effeithiol i sicrhau perfformiad, diogelwch a chanlyniadau gwell.

Un enghraifft yw datblygu llyw-wyr clinigol. Nyrsys uwch a pharafeddygon yw'r rhain sy'n darparu goruchwyliaeth glinigol amser real o fewn Canolfannau Cydgysylltu'r Gwasanaethau Meddygol Brys ac, fel y nodir yn adran 2 uchod, yn chwarae rhan hanfodol mewn tasgau hanfodol megis adolygiadau o alwadau aciwtedd uchel, asesiadau diogelwch ciwiau, a chymorth clinigol o bell i griwiau rheng flaen. Drwy ymgorffori arweinyddiaeth glinigol mewn amgylcheddau cydgysylltu, dim ond un ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod penderfyniadau gofal cleifion yn cael eu harwain gan glinigwyr profiadol yw bod yn uniongyrchol yn y broses o dderbyn galwadau, gan wella diogelwch ac effeithlonrwydd ar draws y system.

Yn ogystal, mae'r Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol yn gyrru newidiadau strwythurol i wella arweinyddiaeth, perfformiad ac atebolrwydd. Mae hyn yn cynnwys gweithredu ein hymateb i'r fframwaith perfformiad newydd, digideiddio prosesau i sicrhau dealltwriaeth drylwyr o sut mae ein cleifion yn llifo trwy'r model.

Rydym hefyd yn gweld buddsoddiad yn y dyfodol ar draws ein gweithlu clinigol i wella'r ddarpariaeth o arweinyddiaeth glinigol rheng flaen, gyda chlinigwyr uwch yn goruchwylio datblygiad a thwf ein gweithlu, gan alinio eu hamcanion â'n model clinigol a, thrwy hyn, y canlyniadau o fewn y fframwaith perfformiad ambiwlansys.


Mae'r holl ddatblygiadau hyn yn mynd law yn llaw â'r ddarpariaeth addysg i'n clinigwyr presennol a'n clinigwyr yn y dyfodol. Mae cefnogaeth gan AaGIC mewn meysydd gwaith, fel gydag Uwch Ymarferwyr Parafeddygol, wedi bod yn allweddol wrth lunio ein darpariaeth gwasanaeth i alinio'n well ag anghenion esblygol cleifion. Mae addysg a datblygiad proffesiynol yn ganolog i'r strategaeth hon. Mae mentrau diweddar wedi mynd i'r afael â bylchau mewn hyder a chymhwysedd clinigol, megis safoni hyfforddiant dehongli electrocardiogramau a chyflwyno offer diagnostig â chymorth deallusrwydd artifisial. Mae'r rhaglenni hyn nid yn unig yn gwella canlyniadau i gleifion ond maent hefyd yn grymuso clinigwyr i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth trwy eu harfogi â sgiliau a gwybodaeth uwch. Mae ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i ddatblygiad proffesiynol parhaus strwythuredig a chydweithio â phrifysgolion yn amlygu ei gweledigaeth hirdymor ar gyfer arweinyddiaeth glinigol gynaliadwy.

Bydd integreiddio cynllunio olyniaeth arweinyddiaeth i Ein Ffordd WAST, gan gynnwys mentora a hyfforddi ar draws lefelau arweinyddiaeth, yn digwydd o 2026/27 ymlaen.

Cynaliadwyedd y gweithlu a lles

Recriwtio

Mae gweithgarwch recriwtio yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ar draws yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod y nifer cywir o staff mewn swydd i ddarparu gwasanaethau. Mae'r ddelwedd isod yn dangos lefelau'r swyddi gwag mewn gwasanaethau rheng flaen.



Mewn cydweithrediad â'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Digidol, mae mentrau recriwtio a chefnogi ceisiadau wedi'u targedu a weithredwyd o fewn cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol lleol wedi gwella amrywiaeth ethnig ar draws y sefydliad a'i swyddogaethau.

Er mwyn mynd i'r afael â heriau'r gweithlu mewn ardaloedd gwledig, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Recriwtio Gwledig pwrpasol wedi'i sefydlu. Mae'r grŵp hwn yn canolbwyntio ar greu cyfleoedd ar gyfer recriwtio lleol, cefnogi cyflogaeth a datblygiad gyrfa o fewn cymunedau gwledig Cymru, a gwella cadw a sefydlogrwydd gweithlu Ambiwlansys Argyfwng yn y rhanbarthau hyn. Mae'r Grŵp wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i nodi'r prif rwystrau i recriwtio mewn ardaloedd gwledig ac i ganolbwyntio camau gweithredu ar y meysydd hyn, gan gynnwys mwy o ryngweithio rhwng Cynllunio'r Gweithlu, Recriwtio a thimau rheoli lleol i dargedu cymunedau lleol yn benodol. O fewn De Gwynedd a Gogledd Powys, mae hysbysebion lleol yn mesur diddordeb cyn ymgysylltu â'r ymgeiswyr posibl hyn, gan ddarparu cefnogaeth i'w helpu i gyflawni'r rhagofynion cyflogaeth gofynnol ar gyfer dewis llwyddiannus.

Yn ogystal, mae Strategaeth Recriwtio newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd y strategaeth hon yn pwysleisio safoni a chanoli prosesau recriwtio ar draws yr Ymddiriedolaeth, arferion recriwtio cynhwysol i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynllunio gweithlu a denu'n strategol i ddiwallu anghenion sefydliadol yn y dyfodol. Mae cwrpas cychwynnol y strategaeth ar y gweill ar hyn o bryd, a disgwylir i ymgysylltu â rhanddeiliaid ddechrau cyn bo hir. Y nod yw cymeradwyo a chyhoeddi'r strategaeth tair blynedd yn chwarter 4 26/27, ac yna gweithredu camau gweithredu tymor byr dros y 12 mis canlynol, a chamau gweithredu tymor hir ar draws 2028/29 a 2029/30.

Cadw staff


Mae Arweinydd Cadw Staff a ariennir gan AaGIC yn agosáu at ddiwedd cyfnod dwy flynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae mentrau sylweddol wedi'u cyflwyno i gryfhau cadw staff. Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys dylunio a lansio Pasbort Iechyd a Lles a Chanllaw Rheolwr cysylltiedig, gan alluogi sgysiau â chymorth a darparu canllawiau clir ar addasiadau rhesymol i gydweithwyr ag anableddau.

Er mwyn gwella'r broses o ymsefydlu a chadw staff, cyflwynwyd Llawlyfr Digidol Corfforaethol Croeso Cynnes WAST sy'n dwyn ynghyd wybodaeth hanfodol am gynigion cymorth corfforaethol, polisïau allweddol, rhwydweithiau pobl, a mwy, gan helpu cydweithwyr newydd i deimlo eu bod wedi'u cysylltu, eu bod yn cael eu cefnogi, a theimlad o berthyn o'r diwrnod cyntaf.

Mae heriau cadw staff yn parhau mewn meysydd penodol, yn enwedig ymhlith trinwyr galwadau, lle mae'r trosiant yn uwch. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r symudiad hwn yn adlewyrchu dilyniant mewnol i rolau'r Gwasanaeth Meddygol Brys a NEPTS, gan ddangos cyfleoedd datblygu gyrfa cadarnhaol o fewn y sefydliad.

Rhaid i gynlluniau gweithlu yn y dyfodol ystyried proffil oedran presennol gweithlu Ambiwlansys Brys (gan gynnwys rolau Technegwyr Meddygol Brys, Ymarferwyr Ambiwlans Brys, a Pharafeddyg), sy'n adlewyrchu dosbarthiad eang ar draws bandiau oedran. Er bod gwelededd cyfyngedig o ymddeoliadau yn y dyfodol, mae data ymddeol hanesyddol ar draws rolau penodol wedi'i allosod i ragweld ymddeoliadau sydd ar ddod. Bydd yr

ymddeoliadau arfaethedig o fewn y bandiau oedran 56–60 a 61–65 dros y blynyddoedd nesaf yn cefnogi'r gostyngiad yn nifer y swyddi Ymarferwyr Ambiwylans Brys a'r Parafeddygon cyfwerth ag amser llawn sy'n ofynnol i gyflawni'r cymysgedd sgiliau ambiwlans brys newydd, a fydd yn cael ei gyflawni dros nifer o flynyddoedd.



Llesiant

O fewn y 12 mis diwethaf, lansiodd yr Ymddiriedolaeth ei Chynllun Iechyd a Lles, gan atgyfnerthu ymrwymiad i les staff a gwirfoddolwyr trwy ddull rhagweithiol a chynhwysfawr. Mae datblygiadau allweddol yn cynnwys adrodd data gwell ar gyfer asesu a monitro, ac ail-lansio'r rhwydwaith rheoli risg trawma (TRiM) i ddarparu cefnogaeth trawma gan gymheiriaid, gyda chefnogaeth hyfforddiant parhaus ac ehangu'r rhwydwaith ymatebwyr.

Ers ei ail-lansio, mae rhwydwaith TRiM wedi tyfu i 37 o ymatebwyr hyfforddedig ar draws y sefydliad. Mae'r galw wedi cynyddu'n gyson o fis i fis, gan adlewyrchu ymwybyddiaeth sefydliadol fwy a hyder gwell wrth gael mynediad at gymorth trawma. Cododd nifer yr atgyfeiriadau o 37 adeg y lansiad ym mis Medi 2025 i 57 ym mis Tachwedd, 81 ym mis Rhagfyr, a 65 ym mis Ionawr 2026. Mae'r duedd ar i fyny hon yn amlygu ymgysylltiad cadarnhaol â TRiM a'r angen gweithredol cynyddol am gefnogaeth amserol ar gyfer trawma. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd ehangu'r rhwydwaith ymatebwyr ymhellach i sicrhau bod llwyth gwaith yn cael ei reoli'n ddiogel ac yn gynaliadwy, gan amddiffyn ymatebwyr rhag blinder a lleihau'r risg o drawma eilaidd neu ddirprwyol sy'n deillio o fod yn agored i sgysiau heriol yn aml.

Mae hyfforddiant risg hunanladdiad wedi'i integreiddio o fewn y Tîm Lles, ac mae proses asesu risg hunanladdiad ffurfiol bellach wedi'i hymgorffori yn ein strwythur cyswllt i fynd i'r afael â ffactorau risg hysbys yn y gweithlu. Mae pob aelod o staff Iechyd Galwedigaethol a Lles wedi cwblhau hyfforddiant risg hunanladdiad, ac mae offeryn asesu strwythuredig bellach yn cael ei gymhwyso'n rheolaidd ac yn gyson.


Mae'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr (Health Assured) yn parhau i gynnig cwnsela cyfrinachol, cyngor ar ffordd o fyw ac ariannol, ochr yn ochr ag atgyfeiriadau ffisiotherapi a chyfeirio at asiantaethau allanol, gan gynnwys llinell argyfwng TASC (The Ambulance Staff

Charity) lle bo'n briodol. Dangosodd y defnydd o'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr rhwng mis Chwefror 2025 a mis Ionawr 2026 uchafbwyntiau clir rhwng mis Awst a mis Hydref, gan gyd-fynd â phwysau sefydliadol ehangach. Gorbryder a hwyliau isel oedd y problemau mwyaf cyffredin a gyflwynwyd, yn gyson â'r prif ffactorau sy'n achosi absenoldeb oherwydd salwch ar draws yr Ymddiriedolaeth. Dewisodd mwy na hanner y defnyddwyr (57%) beidio â datgelu eu maes gwaith, gan bwysleisio'r angen am gyfrinachedd cryf, tra bod y rhai a ddatgelodd yn fwyaf cyffredin o ganolfannau cyswllt clinigol (999/111). Mae'r canlyniadau'n parhau i fod yn gadarnhaol iawn: Arhosodd 96.7% o unigolion a oedd mewn gwaith ar ddechrau'r therapi mewn gwaith, a dychwelodd 47.6% o'r rhai a oedd i ffwrdd o'r gwaith erbyn diwedd eu hymyrraeth. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl bwysig y Rhaglen Cymorth i Weithwyr wrth gefnogi gwydnwch seicolegol, cynnal presenoldeb yn y gwaith, a gwella canlyniadau dychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

Mae gweithgaredd hyrwyddo wedi cael ei adnewyddu ar draws y sefydliad i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael, ac mae sesiynau galw heibio lles yn parhau i fod ar gael mewn canolfannau cyswllt, gorsafoedd, a lleoliadau anghysbell ar sail gylchdroadol. Gan edrych ymlaen, bydd gweithdai pwrpasol ar Reoli Straen yn y Gweithle a Chwsg yn lansio ddechrau 2026, wedi'u cefnogi gan ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth barhaus i sicrhau cefnogaeth lles amserol, gynhwysfawr a chyfrinachol i'r holl staff.

Presenoldeb/salwch

Ym mis Mawrth 2022, cyflwynodd WAST dull rheoli prosiectau strwythuredig ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch gyda saith ffrwd waith yn nodi camau gweithredu a gweithgareddau rhagweithiol ac adweithiol i dargedu absenoldeb ar draws y sefydliad. O ganlyniad, mae absenoldeb wedi gostwng o uchafbwynt o bron i 12.5% ym mis Rhagfyr 2021 i 9.18% ym mis Rhagfyr 2025 gyda'r absenoldeb sefydliadol isaf ym mis Mai 2025 sef 6.81%. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod EMS yn 7.87% ym mis Rhagfyr sy'n gadarnhaol o ystyried yr heriau system ac amgylcheddol parhaus y mae ein criwiau rheng flaen yn eu profi. Mae patrwm yr absenoldeb yn dilyn yr un llinellau tuedd flwyddyn ar ôl blwyddyn gydag uchafbwyntiau ym mis Rhagfyr/mis Ionawr, mis Gorffennaf/mis Awst ac uchafbwynt llai tua mis Mawrth. Eleni mae ffliw/annwyd/Covid cynnar yn effeithio'n uniongyrchol ar y tîm. Ar draws yr Ymddiriedolaeth mae salwch hirdymor yn 6.24% ar hyn o bryd, tymor byr yn 2.94%.



Mae ymdrech gydlynol gan y tîm Gwasanaethau Pobl sy'n cefnogi rheolwyr gweithredol i ymdrin ag achosion o absenoldeb oherwydd salwch, rheoli o fewn fframwaith y polisi, cynyddu ymwybyddiaeth, gwella lles a chefnogaeth yn ogystal â darparu hyfforddi a mentora i reolwyr yn helpu i leihau'r ffigurau ac mae ymdrechion yn parhau i leihau canran yr absenoldeb ymhellach.

Mae absenoldeb salwch yn yr Ymddiriedolaeth yn gyfartalog ar gyfer y sector ambiwlans a dylid bod yn ofalus o'i gymharu â ffigurau'r byrddau iechyd oherwydd y gwahanol risgiau o haint ac anaf mewn gwahanol leoliadau. Mae'r sector yn risg uchel o ran anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD), iechyd meddwl a hunanladdiad oherwydd y trawma a'r straen sy'n gysylltiedig â'r rôl. Er enghraifft:

- canfu adolygiad systematig diweddar fod cyfran y marwolaethau oherwydd hunanladdiad ymhlith clinigwyr EMS (parafeddygon, staff ambiwlans, darparwyr brys cyn-ysbyty), mwy na dwywaith y 2.2% yn y boblogaeth gyffredinol
- mae arolwg ledled y sector o weithwyr EMS yn awgrymu baich iechyd meddwl uchel iawn: mae llawer yn nodi iselder, pryder, PTSD a "syniad hunanladdol difrifol"
- yn ôl data a gasglwyd gan Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwylansys y DU (AACE): nodwyd bod parafeddygon gwrywaidd 75% yn fwy tebygol o farw trwy hunanladdiad na'r cyfartaledd cenedlaethol (gweithiol), h.y. yn sylweddol uwch o'i gymharu â llawer o swyddi eraill

Felly, nid yw'n syndod mai'r prif reswm dros absenoldeb oherwydd salwch yw Iechyd Meddwl (3.03% ym mis Rhagfyr 25), ac yna Peswch/Anwyd/Fliw (0.82%) Gastro (0.82%), MSK (cyhyrsgerbydol) (0.81%), Anaf/Torri (0.46%) a phroblemau cefn (0.45%). Fel y nodwyd uchod, pan fydd cynnydd tymhorol mewn heintiau e.e. annwyd, ffliw, RSV (firws syncytial anadlol), mae hyn hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar y tîm. Mae ein cynnig cymorth iechyd meddwl wedi'i gynnwys yn yr adran lles uchod.

Cysylltiadau Undebau Llafur

O ran cysylltiadau â gweithwyr, mae'r anghydfod ynghylch Dyfarniad Cyflog 2025/26 yn parhau. Cynhaliodd UNSAIN bleidlais ar weithredu diwydiannol yn ystod Chwarter 3; fodd bynnag, ni chafwyd mandad gan aelodau i fwrw ymlaen. Ar hyn o bryd mae UNO'R UNDEB yn cynnal pleidlais ymgynghorol ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â dyfarniad cyflog 2025/26, a ddechreuodd ddydd Gwener, 16 Ionawr a daeth i ben ddydd Llun, 2 Chwefror. Roedd y ganran a bleidleisiodd yn 60% ac roedd 89% o blaid gweithredu diwydiannol. Ar hyn o bryd mae UNO'R UNDEB yn ystyried a ydyn nhw am fwrw ymlaen â phleidlais drwy'r bost lawn.

Mae trafodaethau parhaus yn digwydd gyda Phartneriaid Undebau Llafur lleol ar amrywiaeth o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys gallu staff rheng flaen i gael amser i fwrdd yn lle tâl (TOIL), problemau sy'n codi o sifftiau'n gor-redeg oherwydd pwysau system, ac adolygiad o delerau ac amodau Gofal Integredig. Mae gwaith ar y gweill i archwilio telerau ac amodau amrywiol yn dilyn trosglwyddiadau TUPE (trosglwyddo ymgymeriadau), ochr yn ochr ag adolygiadau o restrau dyletswyddau staff, gweithredu taflenni amser electronig, ac ystyriaethau ynghylch cymysgedd sgiliau ambiwlansys brys. Yn ogystal, mae ymdrechion yn parhau i fynd i'r afael â chytundebau atodiad di-dâl blaenorol. Mae'r holl gamau gweithredu

gwreiddiol a oedd yn ofynnol o dan Elfennau Heblaw Cyflog Cytundeb Cyfunol 2022-24 bellach wedi'u cwblhau.

Sifftiau'n gor-redeg

Mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig blaenorol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â lefel y sifftiau'n gor-redeg o fewn y gwasanaeth EMS, mae'n hysbys bod hyn yn achos straen a gallai fod yn cyfrannu at lefelau absenoldeb uwch na'r disgwyl. Ym mis Rhagfyr 2024 roedd bron i 3000 o shifftiau wedi gor-redeg, gydag amser gor-redeg cyfartalog o 41 munud. Ym mis Rhagfyr 2025 roedd hyn wedi gostwng i tua 2400 o sifftiau'n gor-redeg gydag amser gor-redeg cyfartalog o 35 munud. Er bod hyn yn cynrychioli rhywfaint o gynnydd o ran niferoedd a hyd, mae'r Ymddiriedolaeth eisiau mynd ymhellach.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu dull cynhwysfawr, amlddisgyblaethol o fynd i'r afael â sifftiau gweithredol yn gor-redeg, gan flaenoriaethu gofal cleifion, lles staff ac effeithlonrwydd sefydliadol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei yrru gan lywodraethu strwythuredig, cyfarfodydd adolygu rheolaidd, a dadansoddi data parhaus, gan sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd clir ar gyfer pob gweithred.

Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cynorthwyol EMS, tan 17 Tachwedd 2025 ac maent yn parhau bob pythefnos mewn partneriaeth â Phartneriaid Undebau Llafur. Mae tracio camau gweithredu manwl yn sail i'r broses hon, gan aseiniu cyfrifoldebau a monitro cynnydd. Hyd yn hyn, mae tua 35 o gamau gweithredu wedi'u nodi ar draws portffolio'r pum cyfarwyddiaeth weithredol, gyda thua 75% wedi'u cwblhau. Mae'r camau gweithredu sy'n weddill yn cynnwys newidiadau tymor hwy, sydd wedi'u hamserlennu i'w profi mewn safleoedd gweithredwyr cynnar yn y flwyddyn newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn effro'n gyson i'r angen i gydbwyso lles staff â diogelwch cleifion.

Amser i Ffwrdd o'r Gwaith yn lle Tâl (TOIL)

Mae TOIL yn parhau i fod yn fater proffil uchel mewn trafodaethau gyda Phartneriaid Undebau Llafur, yn enwedig mewn perthynas â lles staff, darparu gwasanaethau, a'r risg o weithredu diwydiannol. Mae'r Polisi Adnoddau cyfredol (2014), a nodwyd i'w adolygu drwy archwiliad mewnol, wedi'i drefnu i'w ddiweddarau yn y misoedd nesaf. Mae dehongliadau gwahanol o'r polisi wedi arwain at anghydfodau, yn enwedig ynghylch hawl staff i TOIL a gronnwyd o sifftiau'n gor-redeg gorfodol. Yn arbennig, mae mwy na 60% o TOIL yn cael ei gynhyrchu o estyniadau heb eu cynllunio i oriau contractiol, gyda staff ac undebau llafur yn ceisio mwy o hyblygrwydd o ran pryd y gellir cymryd TOIL. Mae'n dod yn amlwg nad yw gwelliant i drosglwyddo cleifion i ysbytai o bosibl yn cael yr effaith uniongyrchol gyfatebol ar leihau gorwariant.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, lanswyd proses TOIL newydd ar 15 Medi 2025, a gynlluniwyd i gynyddu hyblygrwydd a chyflawni 11,500 awr ychwanegol y flwyddyn y tu hwnt i'r cymeradwyaethau presennol. Mae cynllun peilot chwe mis, gan ddechrau gydag EMS, ar y gweill gyda chyfarfodydd partneriaeth misol i adolygu canlyniadau a sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau.

Bydd canlyniadau'r cynllun peilot yn cael eu monitro drwy adolygiadau misol o gymeradwyaethau, gwrthodiadau, adborth staff, ac effaith ar gyfraddau salwch/tyniadau, a

datblygu safbwynt clir ar effeithiau gweithredol a lles, wedi'i ategu gan ddata ar gyfraddau tyniadau. Mae canlyniadau cynnar a fonitryd yn dangos sefyllfa gadarnhaol gyda hyd at 95% o'r holl TOIL a gyflwynwyd wedi'u cymeradwyo.

Cymysgedd Sgiliau'r Gweithlu a Chynaliadwyedd

Mae gwaith yn parhau i gefnogi uwchsgilio cyn-gyweithwyr Technegwyr Meddygol Brys Band 4 i rolau Ymarferwyr Ambiwylans Brys Band 5, gyda'r holl hyfforddiant i fod i gael ei gwblhau erbyn Haf 2026.

Cafodd y gymysgedd sgiliau ambiwlans brys a ddymunir, fel y cytunwyd gan y Tîm Arwain Gweithredol, ei gyfleu i'r sefydliad ddechrau mis Ionawr 2026. Mae ymdrechion ar y gweill i alinio sefydliad y gweithlu ar lefelau Technegwyr Meddygol Brys Band 4, Ymarferwyr Ambiwylans Brys Band 5, a Pharafeddyg Band 6 yn unol â'r cymysgedd sgiliau hwn. Fodd bynnag, bydd cyflawni'r cydbwysedd hwn yn gofyn am gyfnod sylweddol oherwydd y tueddiadau trosiant a chynnydd presennol.

Gyda chyfraddau cadw gwell, lefelau swyddi gwag isel o fewn rolau Parafeddygon, a'r angen i ail-alinio sefydliad y Gwasanaethau Meddygol Brys, mae gofyniad sylweddol is am barafeddygon newydd gymhwyso o fewn yr Ymddiriedolaeth. Mae opsiynau i gyflymu'r broses o adlinio rolau EMS yn cael eu harchwilio'n weithredol gan yr Uwch Swyddog a'r Tîm Arwain Gweithredol, a fydd yn cadarnhau niferoedd recriwtio parafeddygon newydd gymhwyso ar gyfer y cyfnod nesaf ddechrau 2026.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymrwmo i gynyddu'r ddarpariaeth gofal brys gyda thwf Uwch Ymarferwyr Parafeddygol, gan sicrhau bod y gweithlu wedi'i alinio'n fwy ag anghenion cleifion a chyfeiriad strategol. Er bod cyfleoedd i dyfu ein gweithlu Uwch Ymarferwyr Parafeddygol yn parhau i fod yn gryf, mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn parhau i fod yn ymwybodol o'r amlen ariannol bresennol, ein cyfrifoldeb i sicrhau cynaliadwyedd ariannol a'r angen i wneud y gorau o gynhyrchiant y garfan Uwch Ymarferwyr Parafeddygol bresennol.

Dull i leihau dibyniaeth ar staff dros dro, asiantaeth a locwm

Mae canran gyfredol costau asiantaeth yn erbyn cyfanswm y cyflogau yn parhau i fod yn fach iawn, sef 0.2%. Mae hyn i gwmpasu nifer fach o swyddi gwag, mewn meysydd ar draws yr Ymddiriedolaeth y mae'r Ymddiriedolaeth yn cael anhawster recriwtio iddynt gan gynnwys clinigol, digidol, fflyd ac ystadau. Fodd bynnag, gobeithir y bydd rhai o'r staff asiantaeth hwn yn cael eu disodli gan staff parhaol yn y dyfodol agos.

O ystyried yr ansicrwydd sy'n parhau ynghylch rhywfaint o gyllid technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sydd wedi'i dderbyn ar sail anghylchol, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddefnyddio staff asiantaeth yn y rolau hyn i ddarparu'r gwasanaeth, ac mae'n credu bod hynny'n briodol o ystyried yr anallu i recriwtio ar sail sylweddol.

Parodrwydd am Argyfwng

Ymchwiliad Arena Manceinion

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o adroddiad Ymchwiliad Arena Manceinion, gan nodi 68 o argymhellion a ystyrir yn berthnasol i weithrediadau'r

gwasanaeth ambiwlans a pharatoadau ac ymateb amlasiantaeth. Gan ddangos ymrwymiad clir i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn, darparodd yr Ymddiriedolaeth adnodd pwrpasol dros dro ym mis Mehefin 2023 i ystyried yr argymhellion, cymryd y camau angenrheidiol lle gall yr Ymddiriedolaeth wneud hynny, a pharatoi ymateb yr Ymddiriedolaeth i gomisiynwyr ei ystyried.

Ers cychwyn y prosiect hwn, mae camau breision wedi'u cymryd, ac mae parodrwydd yr Ymddiriedolaeth wedi gwella. Fel rhan o'r ymdrech barhaus hon, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal cyfres o ymchwiliadau ac wedi cynhyrchu 'Adroddiadau Gallu' yn seiliedig ar dystiolaeth (yn benodol, yr Adroddiad Gallu Argymhelliad (R)106, R105 Gallu i Baratoi, R105 Gallu i Ymateb, ac R105 Gallu Asedau Arbenigol). Mae'r adroddiadau hyn yn amlinellu'r heriau a'r bylchau gallu sy'n weddill, wedi'u cefnogi gan dystiolaeth sylweddol o'r broses hunanadolygu 'R105', ac wedi ennill cefnogaeth Bwrdd yr Ymddiriedolaeth cyn eu cyflwyno.

Cyflwynwyd y canfyddiadau a'r datrysiadau arfaethedig i fynd i'r afael â'r bylchau gallu hyn yn ffurfiol i gyrff comisiynu'r Ymddiriedolaeth, sef y Cyd-bwyllgor Comisiynu a Llywodraeth Cymru, ym mis Awst 2024. Drwy gydol mis Mawrth a mis Ebrill 2025, cymerodd yr Ymddiriedolaeth ran mewn cyfres o sesiynau ymgysylltu i gyflwyno'r canfyddiadau hyn, gan arwain at sesiwn olaf ym mis Medi 2025 i fynd i'r afael ag ymholiadau ychwanegol. Ar adeg paratoi'r cyflwyniad hwn, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn penderfyniadau canlyniad gan y rhai sy'n ei gomisiynu.

Ochr yn ochr â hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Risg Gorfforaethol (641) i gasglu a monitro'r gwersi sy'n weddill sydd heb eu rhoi ar waith eto, gan gydnabod y bydd angen buddsoddiad sylweddol ar gyfer cynnydd pellach. Caiff y risg hon ei hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae'r canfyddiadau hyn hefyd wedi'u croesgyfeirio yn erbyn canfyddiadau allweddol eraill megis Ymchwiliad Grenfell ac maent wedi bod yn destun Archwiliad Mewnol a gafodd ganlyniad archwiliad sicrwydd sylweddol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i archwilio cyfleoedd i fuddsoddi o fewn ei hamlen ariannol ei hun, gan gynnwys fel rhan o drafodaethau sy'n ymwneud â'r cylch Cynllun Tymor Canolog Integredig diweddaraf a byddai'n blaenoriaethu gweithredu Desg Rheoli Digwyddiadau a chynyddu capasiti'r Comander Gweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch ehangu'r uned Tîm Ymateb i Ardaloedd Peryglus (HART) bresennol yn ogystal â'r cyfleoedd i gyflwyno asedau ymateb arbenigol i Ogledd Cymru, a fydd ill dau yn rhan o gynllun gwaith 2026/27.

Parodrwydd, gwydnwch ac ymateb i argyfwng

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymatebydd Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004 ac mae'n ddarostyngedig i ddyletswyddau statudol sy'n canolbwyntio ar barodrwydd, gwydnwch ac ymateb i argyfwng. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys asesu risg, cynllunio argyfyngau, rheoli parhad busnes, cyfathrebu a chydweithredu ag asiantaethau eraill.

Fel Ymddiriedolaeth ambiwlans cenedlaethol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i chynrychioli ar strwythurau argyfyngau sifil ledled Cymru, gan gynnwys strwythurau cynllunio ac ymateb ar lefelau priodol o uwch-swyddogion (strategol, tactegol a gweithredol). Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth yn Fforwm Cymru Gydnherth a'i is-grŵp ac yn y Grŵp Cynghori Cynllunio

Rhag Argyfyngau ac amrywiol is-grwpiau; y grŵp anafiadau torfol a chyn-ysbyty, y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei gadeirio. Mae'r Grŵp Cynghori Cynllunio Rhag Argyfyngau, sydd ar hyn o bryd yn y cyfnod pontio, yn adrodd i Grŵp Arweinwyr Argyfyngau Sifil Gweithredol GIG Cymru y mae Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Ymddiriedolaeth yn aelod ohono. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi'i chynrychioli ar y Grŵp Cynllunio ac Ymateb i Wydnwch Systemau, fforwm allweddol ar gyfer rhagweld bygythiadau a risgiau'r dyfodol fel salwch anadlol yn ystod y gaeaf. Mae'r strwythurau hyn yn cael eu hategu gan strwythurau ambiwlans cenedlaethol trwy AACE a chydweithrediad golau glas trwy'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn rhan yn ddiweddar o Ymarfer Pegasws, ymarfer cenedlaethol haen 1 dan arweiniad Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU, gyda'r nod o asesu parodrwydd, galluoedd a strategaethau ymateb y DU yn drylwyr yng nghyd-destun pandemig sy'n deillio o glefyd heintus newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhan weithredol yn y tri dyddiad allweddol drwy gydol mis Medi, mis Hydref a mis Tachwedd 2025 drwy anfon comanderiaid strategol a thactegol ar draws pedair ardal y Fforwm Gwydnwch Lleol.

Cynhaliwyd sesiwn ôl-drafodaeth fewnol ym mis Tachwedd yn dilyn yr ymarfer, a bydd y canfyddiadau yn allweddol wrth adolygu ein Cynllun Pandemig.

Yn ddiweddar, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth dystiolaeth i ymchwiliad Covid-19 Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd. Mae cyflwyniad tystiolaeth yr Ymddiriedolaeth, sy'n amlinellu nifer o feysydd perthnasol, i'w weld [yma](#).

ADRAN PEDWAR: EDRYCH TUA'R DYFODOL

Crynodeb

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni portffolio digidol ac arloesi aeddfed ac uchelgeisiol sy'n gwella parodrwydd gweithredol, profiad cleifion a gwydnwch gwasanaethau, wedi'i ategu gan lywodraethu cryf a chydlynad clir â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae trawsnewid digidol wedi'i strwythuro o amgylch pum colofn - Hanfodion Bob Dydd, Diogelwch a Seiber, Arloeswyr Digidol, Trawsnewid Digidol, a Data a Mewnwelediad - sydd gyda'i gilydd yn ymgorffori gallu digidol mewn ymarfer rheng flaen ac yn cyflawni gwelliant mesuradwy.
- Mae'r rhaglen yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol yn uniongyrchol drwy fynediad cleifion sy'n cael ei alluogi gan ddeallusrwydd artifisial, brysbennu digidol, awtomeiddio, digideiddio llwybrau a hygyrchedd iaith gwell, gan arwain at lai o bwysau galw, gwell effeithlonrwydd, a chydaddoldeb mynediad cryfach ar draws gofal brys a gofal mewn argyfwng.
- Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd ar draws portffolio seilwaith yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys Canolfannau Cyswllt Clinigol wedi'u huwchraddio a'u cydgrynhai, Rhaglenni Amlinellol Strategol Ystadau a Fflyd a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, gwelliannau i ystadau ar raddfa fawr, rhaglen fawr i amnewid cerbydau, a buddsoddiad parhaus mewn datgarboneiddio, cerbydau trydan a hybrid, a seilwaith gwefru - pob un yn cyfrannu at wasanaethau mwy diogel, mwy gwydn a pharod ar gyfer y dyfodol.

Gwireddu potensial digidol ac arloesedd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu portffolio digidol ac arloesi sy'n aeddfedu ac yn uchelgeisiol sy'n gwella parodrwydd gweithredol, profiad cleifion, mynediad at ofal a gwydnwch cyffredinol ein gwasanaethau yn uniongyrchol. Mae ein rhaglenni'n dangos uniondeb darpariaeth, llywodraethu cryf, effaith weithredol pendant ac aliniad clir â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru sydd wedi'i alluogi'n ddigidol ac sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

Mae digidol ac arloesi yn yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar un pwrpas clir: gwella canlyniadau i gleifion, diogelwch staff a gwydnwch gwasanaethau ar raddfa fawr. Mae'r dull hwn yn blaenoriaethu darpariaeth ddiogel, effaith weithredol a gwerth am arian cyhoeddus, gan symud y tu hwnt i gynlluniau peilot i newid mesuradwy, mewnosodedig ar draws gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae Cynllun Digidol 2024–2029 yn nodi hyn dros bum colofn sy'n sail i'n trawsnewidiad a'n diwylliant o arloesi:

- hanfodion bob dydd – sicrhau bod gan staff yr offer a'r sgiliau i ddarparu gofal yn hyderus ac yn effeithlon
- diogeled, diogelwch a seiber - diogelu systemau a data i gynnal ymddiriedaeth a gwydnwch
- arloeswyr digidol – grymuso timau rheng flaen i arwain arloesedd ac arbrofi

- trawsnewid digidol – ailgynllunio llwybrau a gwasanaethau i wella profiad cleifion ac effeithlonrwydd gweithredol
- data, gwybodaeth a mewnwleidiad – defnyddio dadansoddeg a deallusrwydd artiffisial ar gyfer penderfyniadau a rhagolygon gwell

Mae'r pileri hyn yn arwain dull o ymgorffori digidol mewn ymarfer bob dydd, cefnogi gallu staff, a gyrru gwelliannau mesuradwy mewn gofal a chanlyniadau. Adroddir ar gynnydd yn erbyn pob colofn i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad sy'n rhoi sicrwydd i'r bwrdd.

Alinio â Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Yn unol â chanllawiau Ysgrifennydd y Cabinet, rhaglen ddigidol ac arloesi'r Ymddiriedolaeth yw:

- gyrru dewis, hygyrchedd ac effeithlonrwydd cleifion drwy fynediad 111 wedi'i alluogi gan ddeallusrwydd artiffisial, canslo drwy neges destun, cefnogaeth iaith estynedig, ac offer brysbennu digidol
- cefnogi modelau gofal newydd, gyda chyfeirio deallusrwydd artiffisial asiantaidd, brysbennu o bell, digideiddio llwybrau ac awtomeiddio i leihau'r galw y gellir ei osgoi
- cyflawni gwelliannau mesuradwy, gan gynnwys llai o faich trin galwadau, llai o deithiau NEPTS yn cael eu gwastraffu, llai o amser ar y safle, gwell cefnogaeth i benderfyniadau ar ataliad y galon a chydaddoldeb mynediad gwell

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau digidol hyn yn dangos parodrwydd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y dyfodol a chydymffurfedd gref â'r blaenoriaethau ar gyfer GIG Cymru modern, hygyrch ac arloesol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn trafod yn weithredol y cyfleoedd digidol y mae'n eu gweld gyda phartneriaid ar draws y system gyda'r bwriad o chwarae rhan mewn atebion digidol ar draws y system i nifer o heriau.

Seilwaith

Ystadau

Yn fwy diweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar amgylcheddau Canolfannau Cyswllt Clinigol i gefnogi ymhellach uchelgeisiau'r model trawsnewid clinigol o fewn y cynllun. Mae hyn yn sicrhau y gall yr Ymddiriedolaeth weithio tuag at gael yr adeiladau a'r cerbydau cywir yn y lle iawn i'n staff ddarparu'r gofal gorau a mwyaf diogel ledled Cymru.

Roedd hyn yn cynnwys yn gyntaf, ôl troed y Canolfan Cyswllt Clinigol Llangynnwr wedi'i gydgrynhoi a'i adnewyddu'n ddiweddar sy'n darparu mwy o gapasiti a hyblygrwydd o ran gofod, yn ogystal â darparu mwy o wydnwch.

Yn ail, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r gofod yn Nhŷ Elwy yn Llanelwy ac wedi creu amgylchedd pwrpasol ar gyfer y Ganolfan Gofal Cymunedol ar y llawr cyntaf a gefnogodd ail-leoli staff o Fryntirion, gan ddod â chydweithwyr 111/Gofal Integredig a'r Ganolfan Gofal Cymunedol ynghyd mewn un adeilad.

Mae Rhaglen Amlinellol Strategol Ystadau'r Ymddiriedolaeth wedi'i chymeradwyo'n llawn gan Lywodraeth Cymru, gan ei galluogi i weithio tuag at gynhyrchu cyfres o achosion

busnes i gyflawni ei gweledigaeth, ac mae'n parhau i weithio i ystyried y ffordd orau o ddatblygu atebion ar gyfer cynlluniau blaenoriaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cefnogi nifer o gynlluniau Ystadau ar raddfa fawr yn ystod y flwyddyn ariannol hon, trwy ei dyraniad cyfalaf dewisol; mae'r rhain yn cynnwys gorsaf ambiwlans newydd yn Nolgellau, gwelliannau sylweddol i'r orsaf yn Nhrefynwy a gweithdy fflyd newydd ym Mangor, y bwriedir eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026, ac roedd y rhain i gyd yn gynlluniau i fynd i'r afael â phroblemau cyflwr ystadau hirhoedlog. Bydd y buddsoddiadau hyn yn caniatáu i staff symud i adeiladau addas at y diben.

Rhaglen Amnewid Fflyd

Mae Rhaglen Amlinellol Strategol Fflyd ddiweddaraf yr Ymddiriedolaeth wedi cael ei chymeradwyo'n llawn gan Lywodraeth Cymru, gan alluogi'r Ymddiriedolaeth i gynhyrchu Achosion Cyfiawnhad Busnes blynyddol ar gyfer amnewid cerbydau.

Yn gynnar yn 2025/26, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r Achos Cyfiawnhad Busnes newydd ar gyfer y fflyd ar gyfer prynu 141 o gerbydau gyda chost o tua £22.453m; roedd hyn yn cynnwys 44 o ambiwlansys argyfwng, 12 o gerbydau ymatebwr sengl, 65 o gerbydau gofal ambiwlans mawr, 13 o gerbydau gofal ambiwlans llai, dau gerbyd hyfforddi gyrwyr, tri cherbyd gweithdy fflyd a dau gerbyd iechyd galwedigaethol. Mae'r rhaglen arwyddocaol hon yn mynd rhagddi'n dda, a chynllunnir i bob cerbyd newydd gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y gallu i gyflawni hyn, ar amser ac o fewn y gyllideb, yn rhannol oherwydd cymeradwyaeth gynnar cyllid y cynllun a ganiataodd i'r Ymddiriedolaeth sicrhau slotiau adeiladu gyda'r trawsnewidwyr cerbydau.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Cynhyrchodd WAST Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio mewn ymateb i Gynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru. Mae gan y cynllun ystod o gamau gweithredu sy'n amlinellu ymateb yr Ymddiriedolaeth i ddatgarboneiddio ac mae'n cwmpasu pob cyfarwyddiaeth ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Mae Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru, wedi adnewyddu'r Cynllun Cyflawni Strategol sy'n sail i Gynlluniau Cyflawni Strategol y sefydliadau. Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth sylwadau ar ddwy fersiwn o'r ddogfen. Cyflwynwyd Fersiwn 3 i'r Bwrdd Rhaglen Genedlaethol a Bwrdd Arweinyddiaeth y GIG i'w gymeradwyo.

Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn y broses o adolygu'r newidiadau sydd eu hangen i'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio yng ngoleuni'r Cynllun Cyflawni Strategol diwygiedig. O fewn y Cynllun Cyflawni Strategol mae 25 o fentrau ar draws 7 categori. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u henwi'n benodol (neu o fewn ymbarél holl sefydliadau'r GIG) mewn 36 o gamau gweithredu.

Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried y fethodoleg ar gyfer paratoi ymateb y Cynllun Cyflawni Strategol ar ffurf cynllun newydd, gan gydnabod y gallai fod angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried rhai o'r camau gweithredu penodol, a'r goblygiadau adnoddau o gefnogi'r rhain fel rhaglenni gwaith. O fewn y Cynllun Cyflawni Strategol wedi'i adnewyddu mae cyfres o fetrigau data. Er y gallai rhywfaint o'r data hwn fod wedi'i gasglu gan yr

Ymddiriedolaeth eisoes, mae agweddau a fydd yn gofyn am newidiadau i broses yr Ymddiriedolaeth, neu ddatblygu mecanweithiau ar gyfer casglu data newydd ei angen. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau, bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i adrodd yr Ymddiriedolaeth ar yr wybodaeth hon. Er y gwneir pob ymdrech i awtomeiddio casglu ac adrodd data, dylid nodi y bydd hyn yn gofyn am amser ac adnoddau i'w sefydlu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau newid i'r targedau lleihau carbon a osodwyd yn flaenorol ar gyfer y sector cyhoeddus, sef gostyngiad o 16% erbyn 2025 a gostyngiad o 34% erbyn 2030 ar gyfer allyriadau carbon. Bydd targedau bellach yn canolbwyntio ar allyriadau cwmpas 1 a 2 (uniongyrchol ac anuniongyrchol) yn unig ac ni fyddant yn cynnwys allyriadau cwmpas 3 (cadwyn gyflenwi). Mae'r gostyngiad wedi'i dargedu wedi'i ailbroffilio i ostyngiad o 41.7% erbyn 2030 ar draws y ddau gategori hyn. Mae hyn hefyd yn cydnabod cyflawniad y targed gwreiddiol o 16% o ostyngiad rhwng 2018/19 a 2025, gyda chyflawniad gwirioneddol o 17.7%.

Cyllid gan Gronfa Ystadau Wedi'i Thargeddu (TEF)

Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gael cyllid ar gyfer cynlluniau yn y Fenni (£850mil) a HART (£156mil) eleni. Mae'r ddau gynllun yn mynd rhagddynt yn dda gyda chynllun HART bellach wedi'i gwblhau, a chynllun y Fenni ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cerbydau Trydan a Hybrid

Mae'r Ymddiriedolaeth yn y broses o gyflwyno 10 cerbyd ymateb unigol trydanol â batri (BEV) Maxus, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i werthuso gwybodaeth am gapasiti a chyfnodau batri, amseroedd gwefru a pherfformiad o dan amodau ymateb.

Mae'r gwaith ar weithredu carfanau blaenorol o gerbydau hybrid plygio i mewn yn parhau; o ystyried bod mecanwaith sefydledig ar gyfer y gweithrediad hwn o rowndiau caffael cerbydau blaenorol, mae'r rhain wedi cael eu hystyried yn llwyddiant, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi cyflwyno'r cerbydau hyn. Fodd bynnag, wrth i fwy o gerbydau gael eu cyflwyno i'r gwasanaeth, mae angen gwaith i asesu'r seilwaith gwefru ychwanegol sydd ei angen i sicrhau digon o gapasiti ar y safle, gan ganiatáu defnydd effeithiol o'r cerbydau hyn.

Seilwaith gwefru cyflym cerbydau trydan

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi profi rhai anawsterau yn y farchnad gwefru cyflym gyda dau o'r cyflenwyr blaenorol yn tynnu'n ôl o'r farchnad yn dilyn prosesau tendro llwyddiannus. Mae'r gwaith bellach yn canolbwyntio ar osod gwefrwy 22kw ar draws pum safle'r Ymddiriedolaeth yn 2025/26.

Nes bod yr Ymddiriedolaeth yn gallu datblygu rhaglen i osod gwefrwy cyflym ym mhob prif orsaf, bydd cyflwyno ambiwlansys BEV ar raddfa lawn yn parhau i fod yn her sylweddol. Dylid nodi hefyd fod y buddsoddiad sydd ei angen ar rai safleoedd yn sylweddol a bod heriau sylweddol gyda gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu i drefnu a chefnogi'r uwchraddio sydd ei angen i'r seilwaith presennol.

Cynllunio Addasiadau

Mae'r Ymddiriedolaeth yn y broses o gynnal hunanasesiad o'i sefyllfa mewn perthynas â chynllunio addasu, gyda'r ffurflen derfynol i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2026.

ADRAN PUMP: MATERION LLEOL BWRDD YR YMDDIRIEDOLAETH

Fframwaith comisiynu

Mae mwy na degawd bellach (2013) ers cyhoeddi Adroddiad McClelland, a amlinellodd gyntaf y cysyniad o ddull comisiynu ar gyfer darparu gwasanaethau ambiwlans ledled Cymru.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, roedd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (fel yr oedd bryd hynny), wedi bod trwy ansefydlogrwydd sefydliadol sylweddol, i'r pwynt lle'r oedd bygythiad dirfodol gwirioneddol. Roedd dyfodiad Prif Weithredwr newydd ym mis Hydref 2014 yn arwydd o ddechrau rhaglen o sefydlogi a gwella, gyda chyflwyniad peilot model clinigol newydd ym mis Hydref 2015, a gafodd ei gydgrynhoi wedi hynny a'i wneud yn barhaol ym mis Chwefror 2017 ac a barhaodd yn ei le tan 2024/25.

Yn y degawd ers cyhoeddi'r adroddiad, mae llawer wedi newid yn yr Ymddiriedolaeth. Mae bellach ar flaen y gad o ran gofal clinigol brys ac argyfwng yn y gymuned ac o bell, tra hefyd yn parhau i wella ac arloesi i chwarae rhan allweddol yn natblygiad gwasanaeth gofal brys a gofal mewn argyfwng y tu allan i'r ysbyty i Gymru, gan gefnogi system ehangach GIG Cymru. Mae hefyd yn darparu'r gwasanaeth ffôn a digidol 111 cenedlaethol.

Fodd bynnag, mae anghysondebau o hyd yn y gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru o ganlyniad i drefniadau comisiynu gwahanol (lle mae rhai byrddau iechyd yn comisiynu gwasanaethau y tu hwnt i wasanaethau craidd 999, 111 a gwasanaethau difrys), sy'n arwain at amrywioldeb perfformiad ac elfen o loteri cod post, gan fod gwahanol ardaloedd byrddau iechyd yn comisiynu gwahanol elfennau o'r gwasanaeth. Gyda hyn yn ogystal â'r angen i safoni perfformiad, darparu a darpariaeth gwasanaethau ledled Cymru ynghyd â chymhlethdod rheoli gwahanol lefelau o wasanaeth a llwybrau gofal ar draws ôl-troed y saith bwrdd iechyd, mae hyn yn agor dadl ynghylch perthnasedd comisiynu yn y dyfodol mewn tirwedd iechyd cyhoeddus gymhleth a chyfyngedig yn ariannol, lle bydd angen arbedion maint, wedi'u gyrru gan y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau clinigol i wneud y gorau o ganlyniadau iechyd.

Byddai'r Ymddiriedolaeth yn croesawu trafodaethau ar fecanweithiau ariannu yn y dyfodol a fyddai'n cefnogi cyfraniad ehangach i'r system a phatrwm mwy safonol o ddarparu gwasanaethau, gyda manylion priodol ar gyfer materion penodol, er enghraifft darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

Natur wledig

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen, lle bynnag y bo modd, darparu gwasanaeth cyfartal ar draws holl ardaloedd Cymru. Mae cwestiynau wedi codi drwy sianeli comisiynu ynghylch darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, yn rhannol gysylltiedig â'r adolygiad parhaus o Wasanaethau Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys, ac felly mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n datblygu briff cynhwysfawr ar ddarpariaeth gwasanaethau, canlyniadau i gleifion a chyfleoedd i newid. Bydd hyn yn cael ei rannu gyda chomisiynwyr erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

ADRAN CHWECH: ACRONYMAU

AACE - Cymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwylans

AI - Deallusrwydd Artiffisial

APP - Uwch Ymarferwyr Parafeddygol

BAF - Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

CCC -Canolfannau Cyswllt Clinigol

CEWS - Sgôr Rhybudd Cynnar Diwylliannol

CMT - Trawsnewid Model Clinigol

CPR - Adfywio Cardio-pwlmonaidd

CPSS – System Blaenoriaethu a Ffrydio Clinigol

CWR - Ymatebwyr Lles Cymunedol

DOS - Cyfeiriadur Gwasanaethau

EAP - Ymarferydd Ambiwylans Argyfwng

ELT - Tîm Arwain Gweithredol

EMT - Technegydd Meddygol Brys

ePCR - Cofnod Clinigol Claf Electronig

EPRR - Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb i Argyfwng

ESR – Cofnod Staff Electronig

HART - Tîm Ymateb i Ardaloedd Peryglus

IMTP - Cynllun Tymor Canolig Integredig

JCC - Cyd-bwyllgor Comisiynu

MAI - Ymchwiliad Arena Manceinion

NEPTS - Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys

NRI - Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol

OOH - Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Brys y Tu Allan i Oriau

AGDP - Adolygiad Gwerthuso a Datblygu Perfformiad

PECI - Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned

PTSD – Anhwylder Straen Ôl-drawmatig
QUEST - Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad y Claf a Diogelwch
RICS - Gwasanaeth Gofal Integredig o Bell
ROSC - Adferiad cylchrediad digymell
SDEC - Gofal Brys yr Un Diwrnod
SEP - Cynllun Cydraddoldeb Strategol
SPoA - Un Pwynt Mynediad
STEMI - Cnawdnychiant Myocardiaidd Trochiad ST
TOIL - Amser i Ffwrdd yn lle Tâl
TRiM - Rheoli Risg Trawma
TUPs - Partneriaid Undeb Llafur
c.a.ll - Cyfwerth ag Amser Cyflawn